## CYFLWYNIAD

### Beth sydd dan sylw yn y llyfryn hwn?

Mae Cyngor Caerdydd am glywed barn ein rhanddeiliaid ar y newidiadau rydym ni'n cynnig eu gwneud i rai o'n hysgolion arbenigol a'n canolfannau adnoddau arbenigol. Mae'r llyfryn hwn wedi'i anelu at rieni/ofalwyr, staff ysgolion, cyrff llywodraethu, gwasanaethau iechyd a phlant, ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd. Mae'r llyfryn yn mynd ati i ddisgrifio ac esbonio'r cynigion fel bod ein partneriaid yn ymwybodol ac yn gallu rhoi eu barn.

### Beth sy'n cael ei gynnig?

Mae wyth cynllun arfaethedig, a restrir isod. Gallwch chi ddarllen rhagor o fanylion am bob cynllun ar y tudalennau sydd wedi'u nodi.
Nod y cynlluniau arfaethedig yw ymateb i'r nifer cynyddol o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol er mwyn gwireddu eu potensial addysgol, drwy:

- Cynyddu'r nifer o leoedd mewn ysgolion arbennig yng Nghaerdydd;
- Sefydlu canolfannau adnoddau arbenigol newydd yn rhai o ysgolion Caerdydd;
- Newid y meysydd arbenigol sydd ar gael yn rhai o'n hysgolion arbenigol a'n canolfannau adnoddau arbenigol.

**RHESTR TERMAU**

**Y Cyfnod Sylfaen:** Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng 3 a 7 oed yng Nghymru mewn lleoliadau a gynhelir ac mewn lleoliadau nas cynhelir. Mae saith maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a chaiff y rhain eu cyflwyno drwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau dysgu llesol dan do ac yn yr awyr agored.

**Cyfnodau Allweddol:** Yn dilyn y Cyfnod Sylfaen, mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'i rannu'n dri Chyfnod Allweddol ac mae plant yn mynd drwy'r rhain yn ystod eu bywyd ysgol. Mae targedau sydd wedi'u diffinio yn y Cwricwlwm yn cael eu hasesu ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol.

**Anghenion dysgu ychwanegol (ADY):** tybir bod gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol (y cyfeirir atynt hefyd â'r enw anghenion addysgol arbennig) os oes ganddo anhawster dysgu, cyflwr meddygol neu anabledd, ac mae angen cymorth ychwanegol neu drefniadau arbennig arno er mwyn sicrhau bod modd iddo gael addysg a gwireddu ei botensial.

**Datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA):** Mae gan nifer bach o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (neu anghenion addysgol arbennig) ddatganiad. Mae hon yn ddogfen bwysig sy'n disgrifio eu hanghenion yn fanwl ac sy'n nodi'r cymorth y mae'n ei gael ar hyn o bryd. Mae gan bob plentyn mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol ddatganiad.

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru):** Mae hon yn ddeddf newydd a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae Addysg a gwasanaethau eraill yn cydweithio i roi cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dan y Ddeddf, bydd y term anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn disodli'r term anghenion addysgol arbennig. Yn lle datganiadau bydd Cynlluniau Datblygu Unigol neu CDUau. Bydd y trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o dair blynedd, a bydd hynny'n debygol o ddechrau ym mis Medi 2019.

**Ysgol arbennig:** Mae ysgolion arbennig yn darparu addysg arbenigol iawn ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â'r anghenion ychwanegol mwyaf cymhleth. Mae dosbarthiadau'n fach ac mae'r cwricwlwm yn cael ei deilwra'n sylweddol yn ôl anghenion disgyblion. Mae'r staff y gymwys ac yn meddu ar y profiad i addysgu plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Mae ystod o wasanaethau iechyd arbenigol yn gweithio gyda'r ysgolion arbennig. Mae Caerdydd yn cynnal saith ysgol arbennig ac mae'n ariannu hyd at 40 o leoedd ar gyfer disgyblion Caerdydd yn Ysgol y Deri a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

**Canolfan adnoddau arbenigol (CAA):** Mae canolfan adnoddau arbenigol yn ddosbarth bach mewn ysgol prif ffrwd, a gaiff eu haddysgu gan staff arbenigol. Er bod y CAAau mewn ysgolion prif ffrwd lleol, maen nhw'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod ac nid o'u hardal leol yn unig. Mae disgyblion mewn CAA yn elwa ar fod mewn dosbarth bach sydd â chymhareb disgybl-staff ffafriol, ond maen nhw hefyd yn elwa ar fod mewn ysgol prif ffrwd ac ar gael eu cynnwys mewn llawer o gyfleoedd dysgu gyda'u cyfoedion prif ffrwd. Mae amryw wasanaethau iechyd arbenigol yn rhoi cymorth i ddisgyblion mewn canolfannau adnoddau arbenigol. Mae Caerdydd yn

ariannu 21 o ganolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

**Dosbarthiadau Llesiant:** Mae Caerdydd hefyd yn ariannu sawl dosbarth llesiant er mwyn rhoi cymorth dwys byrdymor i blant a phobl ifanc sy’n dangos anghenion iechyd emosiynol a llesiant. Mae dosbarthiadau’n debyg iawn i ganolfannau adnoddau arbenigol, ond does dim datganiad gan ddisgyblion fel arfer. Mae’r lleoliadau hyn yn rhai dros dro, a’r nod yw cynorthwyo’r disgybl i ailintegreiddio’n llwyddiannus mewn ysgol leol.

| **Y cynllun arfaethedig:** | **Rhagor o wybodaeth ar dudalennau:** |
|---|---|
| **Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd ac uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth neu Gyflyrau'r Sbectrwm Awtistig, cynigir<br><br>• cynyddu Tŷ Gwyn i ddarparu ar gyfer hyd at 198 o leoedd<br>•<br><br>Er mwyn cyflawni hynny, cynigir addasu rhan o adeilad Canolfan Ieuenctid Trelái er mwyn i Ysgol Tŷ Gwyn allu agor tri dosbarth newydd ynddo, a chysylltu'r ysgol ag adeiladau'r ganolfan ieuenctid. | 14 - 16 |
| **Ysgol Arbennig The Hollies**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd ac uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth neu gyflyrau'r sbectrwm awtistig, cynigir:<br><br>• estyn ystod oedran Ysgol The Hollies o 4-11 oed i 4-14 oed<br>• cynyddu'r ysgol er mwyn iddi ddarparu hyd at 138 o leoedd<br><br>Er mwyn cyflawni hynny, cynigir darparu rhagor o adeiladau ar gyfer yr ysgol drwy adnewyddu'r adeiladau y mae Ysgol Glan Morfa'n eu gadael, yn Hinton Street, CF24 2EU | 17 - 21 |
| **Ysgol Arbennig Greenhill**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd ôl-16 oed ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion o ran eu hiechyd emosiynol a'u llesiant, cynigir<br>• estyn ystod oedran Greenhill o 11-16 oed i 11-19 oed ac<br>• cynyddu'r ysgol er mwyn iddi ddarparu hyd at 64 o leoedd.<br><br>Er mwyn cyflawni hyn, cynigir addasu tŷ'r gofalwr ar y safle, nad yw'n cael ei ddefnyddio. | 22 - 24 |
| **Ysgol Arbennig Meadowbank**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol cynradd arbennig ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth, cynigir<br><br>• newid math yr angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer, *o'r canlynol:*<br>• 'anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu', *i'r canlynol:* 'anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac anableddau dysgu cymhleth' | 25 - 28 |

| | |
|---|---|
| **Ysgol Gynradd Allensbank**<br><br>Er mwyn diwallu'r angen am leoedd ymyrraeth gynnar ar gyfer plant ag anghenion lleferydd ac iaith, cynigir<br><br>• Dirwyn y ganolfan adnoddau arbennig yn Ysgol Allensbank i ben, gan gau'r dosbarth ym mis Gorffennaf 2020, neu pan fo pob un o'r disgyblion presennol wedi cwblhau ei leoliad cynradd os digwydd hynny'n gynt.<br>• Agor dosbarth ymyrraeth gynnar ag ynddo wyth lle ar gyfer plant ag anghenion lleferydd ac iaith yn Ysgol Allensbank, a derbyn y disgyblion cyntaf ym mis Medi 2019.<br>• | 29 - 33 |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol cynradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth, cynigir<br>• agor canolfan adnoddau arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair gyda hyd at 20 o leoedd. | 34 - 36 |
| **Ysgol Gymraeg Pwll Coch**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd CAA cynradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau'r sbectrwm awtistig yn y sector Cymraeg, cynigir<br><br>• agor canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Pwll Coch â 10 lle i ddechrau, gyda'r potensial o gynyddu i 20 lle yn y dyfodol wrth i'r galw gynyddu. | 37 - 39 |
| **Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd CAA uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau'r sbectrwm awtistig yn y sector Cymraeg, cynigir:<br>• cynyddu'r nifer dynodedig yng nghanolfan adnoddau arbenigol Ysgol Glantaf i hyd at 30 o leoedd<br>• gweithio gyda'r ysgol i estyn a gwella cartref presennol y ganolfan adnoddau arbenigol | 40 - 42 |

**Gyda phwy y byddwn ni'n ymgynghori?**

Mae Cyngor Caerdydd yn gofyn clywed barn y canlynol:

- Plant a phobl ifanc
- Rhieni/gofalwyr
- Staff ysgol
- Cyrff Llywodraethu Ysgolion
- Trigolion lleol
- Aelodau Lleol/Aelodau Cynulliad/Aelodau Cynulliad Rhanbarthol/Aelodau Seneddol
- Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
- Undebau Masnach
- Estyn
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Dewi Sant
- Pob ysgol yng Nghaerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Sefydliadau'r Sector Wirfoddol
- Awdurdodau Lleol Cyfagos
- Gweinidogion Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

**Yr hyn fydd y proses ymgynghori yn ei olygu**

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei goladu a'i grynhoi, a chaiff adroddiad ei gyflwyno gerbron Cabinet y Cyngor. Bydd modd i bob person weld yr adroddiad ymgynghori hwn ar wefan y Cyngor a bydd modd gofyn am gopi ohono drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae nifer o gamau pellach y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu dilyn cyn i'r Cyngor wneud penderfyniad terfynol.

**Y cyfnod ymgynghori**

Mae'r cyfnod ymgynghori ar y cynigion hyn yn dechrau ar 31 Ionawr 2018 ac mae'n dod i ben ar 13 Mawrth 2018.

O fewn 13 wythnos wedi 13 Mawrth 2018, cyhoeddir adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor. Bydd copïau caled ohono hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r problemau a gaiff eu codi gan ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori a bydd yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r problemau hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori a bydd yn penderfynu p'un ai a fydd yn gweithredu'r cynigion ai peidio.
Os bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynigion, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad statudol.

**Hysbysiad Statudol**

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i arddangos ym mhrif fynedfa neu gerllaw'r ysgolion/y safleoedd sydd dan sylw ynddo. Byddai modd i ysgolion a nodwyd yn yr hysbysiad gael copïau o'r hysbysiad er mwyn eu dosbarthu i ddisgyblion, gwarchodwyr ac aelodau staff (gall yr ysgol hefyd dosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad yn cyflwyno manylion y cynigion ac mae'n gwahodd unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod a nodir.

**Penderfynu ar y cynigion**

Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu ar y cynigion, ac eithrio'r cynnig ar gyfer Ysgol y Forwyn Fair a gaiff ei benderfynu gan Gorff Llywodraethu'r ysgol honno. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod, neu eu cymeradwyo ar ôl eu haddasu nhw. Wrth wneud hynny, bydd y Cabinet yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi'u derbyn.

**Hysbysiad o'r penderfyniad**

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ar y cynigion, bydd pob parti â diddordeb yn cael eu hysbysu, ac fe gaiff ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor.

**Cael rhagor o wybodaeth a lleisio'ch barn**

Bydd modd i randdeiliaid gael copïau o'r ddogfen ymgynghori, a bydd copïau ar gael i'w gweld ym mhob un o ysgolion a gynhelir Caerdydd, mewn Hybiau a Llyfrgelloedd Cymunedol ledled Caerdydd, ac ar wefan y Cyngor.

Bydd swyddogion o'r Cyngor yn cyfarfod â chyrff llywodraethu pob un o'r ysgolion a enwir yn y cynigion.  Ar ran yr Awdurdod Lleol, bydd Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a effeithir yn uniongyrchol gan y cynigion yn trefnu cyfarfodydd i staff a rhieni/gofalwyr disgyblion sy'n mynychu eu hysgolion ac yn rhoi'r dyddiadau ar wefannau eu hysgol os bydd unrhyw barti â diddordeb am fynychu.  Caiff y dyddiadau hyn hefyd eu cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor.  Caiff y rhain eu trefnu'n ystod cyfnod yr ymgynghoriad i drafod sut y bydd y newidiadau'n effeithio ar yr ysgol.  Cedwir cofnod ffurfiol o'r cyfarfodydd hynny.  Yr ysgolion eu hunain fydd yn rhoi gwybod am ddyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd.

Bydd swyddogion o'r Cyngor yn cydweithio ag ysgolion er mwyn rhoi cyfle i ddisgyblion rannu eu barn a'u profiadau.

Trefnwyd sesiynau galw heibio cyhoeddus mewn Hybiau Cymunedol, ac fe'u rhestrir dros y ddalen. Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i'r cyhoedd ac unrhyw barti arall â diddordeb yng nghynnwys y ddogfen ymgynghori ofyn cwestiynau a dysgu mwy am yr hyn sy'n cael ei gynnig a sut byddai hyn yn newid patrwm presennol darpariaeth ADY yng Nghaerdydd.  Bydd Uwch Swyddogion o'r Tîm Cynhwysiant yn bresennol i amlinellu'r cynigion a gwrando ar unrhyw farn neu bryderon a allai fod gennych.  Bydd y wybodaeth a roddir yn y sesiynau hyn yr un fath ag sydd yn y ddogfen ond gallwch

ofyn cwestiynau i sicrhau eich bod yn deall y goblygiadau i chi a/neu eich plentyn. Gall swyddogion hefyd gynorthwyo wrth lenwi ffurflen ymateb os hoffech wneud hynny ar yr un pryd.

| **Dyddiadau'r cyfarfodydd a'r sesiynau galw heibio** | | |
|---|---|---|
| **Natur yr ymgynghori** | **Dyddiad/amser** | **Lleoliad** |
| Corff Llywodraethu, Ysgol The Hollies | Dydd Mercher 7 Chwefror, 5pm | Ysgol The Hollies |
| Corff Llywodraethu, Ysgol Tŷ Gwyn | I'w gadarnhau | Ysgol Tŷ Gwyn |
| Corff Llywodraethu, Ysgol Greenhill | Dydd Iau 8 Chwefror, 3.30pm | Ysgol Greenhill |
| Corff Llywodraethu, Ysgol Meadowbank | Dydd Llun 5 Chwefror, 6pm | Ysgol Meadowbank |
| Corff Llywodraethu, Ysgol Allensbank | Dydd Llun 12 Chwefror, 5:30pm | Ysgol Gynradd Allensbank |
| Corff Llywodraethu, Ysgol Glantaf | Dydd Mawrth 13 Chwefror, 6:30pm | Ysgol Glantaf |
| Corff Llywodraethu, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair | I'w gadarnhau | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair |
| Corff Llywodraethu, Ysgol Pwll Coch | I'w gadarnhau | Ysgol Pwll Coch |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Mercher 7 Chwefror, 10am -12pm | Hyb Ystum Taf a Gabalfa |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Gwener 9 Chwefror, 12pm – 2pm | Hyb y Tyllgoed |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Llun 12 Chwefror, 10am - 12pm | Hyb STAR |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Iau 15 Chwefror, 5pm–7pm | Y Llyfrgell Ganolog |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Llun 19 Chwefror, 10am–12pm | Hyb Llaneirwg |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Mawrth 20 Chwefror, 3pm–5pm | Llyfrgell Pen-y-lan |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Mawrth 27 Chwefror, 10am–12pm | Hyb Grangetown |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Llun 5 Mawrth, 10am–12pm | Hyb Treláí a Chaerau |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Mercher 7 Mawrth, 10am – 12pm | Hyb Llanisien |
| Sesiwn galw heibio agored | Dydd Iau 8 Mawrth, 2pm – 4pm | Hyb Llanedern yn y Powerhouse |

**Mae Eich Barn yn Bwysig**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi ddweud wrthym yr hyn feddyliwch ynghylch y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn mae holiadur: dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor eich barn am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu p'un ai i fwrw ymlaen â'r cynigion arfaethedig neu beidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

## CEFNDIR I'R CYNLLUNIAU ARFAETHEDIG

### Blaenoriaethau Strategol Caerdydd i wella deilliannau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gynhwysiant ac mae'n cydnabod nad cynnig rhagor o leoedd arbenigol yn unig sydd ei angen i ddiwallu anghenion poblogaeth ADY gynyddol.

Mae lawn cyn bwysiced sicrhau bod ysgolion prif ffrwd yn parhau i ddatblygu i fod yn lleoliadau sy'n gallu diwallu ystod eang o anghenion cymhleth. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu tair blaenoriaeth strategol i wella deilliannau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol:

### Blaenoriaeth Un: Rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg ar waith yn llwyddiannus

Yn unol â'r flaenoriaeth hon, bydd y Cyngor yn ymgymryd ag ystod o gamau er mwyn cyflwyno dull mwy unedig o gynllunio a bydd barn plant a phobl ifanc yn ganolog iddo. Bydd cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

### Blaenoriaeth Dau: Atgyfnerthu'n gallu ar y cyd er mwyn diwallu pob angen

Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion, rhieni a phartneriaid eraill er mwyn parhau i wella ansawdd y cymorth ar gyfer y sawl ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob un o'n hysgolion a'n lleoliadau addysg. Byd hynny'n cynnwys datblygu cyfleoedd i ysgolion ddatblygu a rhannu arfer gorau; gwella ansawdd a gwybodaeth am gymorth a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol; a gwella effeithiolrwydd adnoddau a chymorth sydd ar gael i ysgolion prif ffrwd.

### Blaenoriaeth Tri: Sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ddigonol, o ansawdd uchel

Blaenoriaeth Tri yw prif fyrdwn y papur ymgynghori, sef datblygu llefydd ychwanegol mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol, ond gallwch chi ddarllen rhagor am bob un o'r tair blaenoriaeth strategol drwy fynd i'r wefan ganlynol:

http://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s19397/Cabinet%2018%20Jan%202018%20SOP%20Add%20Learning%20Needs%20App%201.pdf

### Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, 'Band B'

Yn y tymor canolig i hir, bwriad Caerdydd yw diwallu'r angen am leoedd arbenigol ychwanegol drwy raglen fuddsoddiad cyfalaf 'Ysgolion yr 21ain Ganrif'.
Mae blaenoriaethau Band B, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Cyngor Caerdydd yn nodi pedwar cynllun cyfalaf i ail-lunio darpariaeth ysgolion arbennig Caerdydd. Byddai'r cynlluniau'n galluogi'r Cyngor:

- i ailgodi adeiladau sgôr 'D' Ysgolion Riverbank, Woodlands, the Court a Greenhill

- i gynyddu nifer y lleoedd y rhagwelir y bydd eu hangen o 2022-27
- i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth, er enghraifft lleoedd i ferched ac i ddisgyblion ôl-16 oed ag anghenion o ran eu hiechyd emosiynol a'u llesiant
- i wella cyfleoedd o ran cymorth a darpariaeth amlasiantaeth;
- i wella swyddogaeth ysgolion arbennig fel ffynhonnell cymorth i deuluoedd ac ysgolion prif ffrwd.


**Cynllun Datblygu Darpariaeth ADY 2018-22**
Ni chaiff cynlluniau Band B eu cwblhau tan 2021 ar y cynharaf. Felly, bydd angen i'r Cyngor gymryd camau i gynyddu nifer y lleoedd i ddiwallu anghenion yn y tymor byr, dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cynlluniau arfaethedig yn y llyfryn hwn ar wahân ac yn ychwanegol i'r cynlluniau Band B. Maen nhw'n amlinellu'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn eu hystyried er mwyn ateb y galw am leoedd arbenigol 2018-22.

Ni fydd y cynlluniau yn y llyfryn hwn yn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion digonolrwydd y cyfnod 2018-22. Mae'r Cyngor wedi cymryd, a bydd yn parhau i gymryd camau amrywiol er mwyn ehangu darpariaeth o fewn yr adeiladau presennol a'r niferoedd dynodedig lle bo modd.

Rhagwelir hefyd y bydd angen i gynlluniau newydd gael eu datblygu a'u cynnig yn 2019 i agor canolfannau adnoddau arbenigol ychwanegol yn y cyfnod cynradd ac uwchradd.

**Cynnydd yn y galw am leoedd arbenigol**
Fel y dengys y graff isod, mae cynnydd o 103 o leoedd wedi bod yn nifer y lleoedd a ariennir mewn ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol dros gyfnod o bum mlynedd.




Er gwaethaf y twf mewn mannau, mae peth tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw hyn wedi bod yn ddigonol i ddiwallu'r angen presennol. Er enghraifft, mae cost darparu ar gyfer datganiadau prif ffrwd wedi cynyddu 63% dros y pum mlynedd diwethaf, a bu cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion annibynnol ('y tu allan i'r sir'). Mae hynny'n awgrymu bod rhai disgyblion yn ein hysgolion prif ffrwd a'n lleoliadau 'y tu allan i'r sir'

a fyddai'n cael budd o gael mynediad i un o ysgolion arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol Caerdydd.

Dros y 5-10 mlynedd nesaf, bydd angen buddsoddiad refeniw a chyfalaf i sicrhau darpariaeth arbenigol ddigonol a phriodol ar gyfer nifer cynyddol o ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac i leihau dibyniaeth ar y sector annibynnol. Disgwylir cynnydd yn y galw o du dysgwyr sydd â'r canlynol:

- Anghenion o ran eu hiechyd emosiynol a'u llesiant
- Anableddau dysgu cymhleth
- Cyflyrau'r sbectrwm awtistig

**Gostyngiad yn y galw am leoedd lleferydd ac iaith arbenigol**

Ar y llaw arall, mae'r galw am leoedd arbenigol a ddynodir ar gyfer nam iaith benodol wedi gostwng ers 2010. Rhwng 2010 a 2015, bu cwymp yng nghyfanswm nifer y disgyblion ar gofrestrau Ysgol Arbennig Meadowbank a chanolfan adnoddau arbenigol Allensbank – sydd ill dwy wedi'u dynodi ar gyfer 'namau iaith penodol' – o 58 i 34.

Yn 2015-16, cynigiodd y Cyngor gau'r ddau leoliad yn ffurfiol ac adleoli'r adnodd i feysydd eraill lle ceir angen a lle mae'r galw ar gynnydd. Serch hynny, bu amryw wrthwynebiadau gan randdeiliaid i'r cynnig a phenderfynodd y Cyngor beidio â'i weithredu, ond i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid, ac i ymgymryd ag adolygiad o gymorth lleferydd ac iaith.

Sefydlwyd grŵp cyfeirio fel fforwm i randdeiliaid a oedd yn cynnwys rhieni, staff addysgu, llywodraethwyr, y sector wirfoddol a'r gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith er mwyn cyfrannu at y gwaith o werthuso'r gwasanaethau presennol.
O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r Cyngor yn rhoi nifer o gamau ar waith i wella ymhellach y cymorth i ddysgwyr ag anghenion lleferydd ac iaith, ac mae'n cynnig newid, nid cau canolfannau adnoddau arbenigol Ysgol Meadowbank ac Ysgol Allensbank, fel yr amlinellir yn y cynigion.

Ymhlith y camau sydd ar waith i wella cymorth ar gyfer anghenion lleferydd ac iaith y mae:

- Parhau i gryfhau'r bartneriaeth rhwng Addysg a Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith y GIG
- Adeiladu ar lwyddiant Speech and Language Links yn y Cyfnod Sylfaen (sy'n cael ei ddefnyddio mewn 100% o ysgolion cynradd Caerdydd) drwy gyflwyno Junior Speech and Language Links ym mhob ysgol.
- Parhau i gyflwyno hyfforddiant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Cyflwyno WellComm mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar er mwyn adnabod anghenion lleferydd ac iaith ymhlith disgyblion oed meithrin a rhoi cymorth cynnar iddynt.

**Yr achos busnes dros Gynllun Datblygu ADY 2018-2022**

O beidio â buddsoddi mewn darpariaeth a gynhelir gan y Sir dros y 3-4 mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn dod yn fwyfwy dibynnol ar ddarparwyr ysgolion arbennig er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol.
Dyma fyddai'r goblygiadau a'r risgiau fyddai'n codi o orddibynnu ar leoedd annibynnol:

- costau refeniw uwch i'r Cyngor
- anallu i gynnig lleoedd yn ôl dewis rhieni

Mae'r gost am leoedd mewn ysgolion arbennig annibynnol yn amrywio o £39K i £77k y flwyddyn, o'u cymharu â chostau ysgolion arbennig Caerdydd o £14k i £25k y flwyddyn. Prin y mae trosglwyddo disgybl yng nghanol cyfnod ysgol o fudd iddo, felly ar ôl iddo gael ei leoli yno, nid yw'n debygol y bydd yn dychwelyd at ddarpariaeth a gynhelir os daw lle ar gael yn y blynyddoedd dilynol. Byddai'r costau felly'n parhau dros 7-8 mlynedd yn achos lleoliadau sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7, ac efallai dros gyfnod hwy yn achos lleoliadau cynradd.

Mae'r Cyngor felly yn ymrwymo i'r nod o ddatblygu digon o leoedd ansawdd uchel yn yr ysgolion y mae'n eu cynnal ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Drwy hynny, caiff adnoddau cyhoeddus eu defnyddio'n fwy effeithlon na thrwy ddibynnu ar leoedd annibynnol, a chaiff arbenigedd o fewn ysgolion Caerdydd ei ddatblygu'n barhaus.

Mae'r rhan fwyaf o rieni Caerdydd yn mynegi mai lleoedd yn ysgolion arbennig Caerdydd neu ganolfannau adnoddau arbenigol yw eu dewis i'w plant. Gallai cynnig lleoedd mewn ysgolion annibynnol gael goblygiadau negyddol o ran enw da.

Dylid nodi nad oes sicrwydd y gallai'r sector annibynnol gynnig digon o leoedd mewn ysgolion arbennig i ddiwallu anghenion digonolrwydd Caerdydd, yn enwedig o ran disgyblion oed cynradd. Gallai gorddibynnu ar y sector olygu na allai Caerdydd gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

## Y CYNLLUNIAU ARFAETHEDIG

### Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

### Yr ysgol

Mae Tŷ Gwyn yn ysgol arbennig sy'n cynnig lleoedd ysgol arbennig i ddysgwyr 3-19 oed sydd ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau'r sbectrwm awtistig (CSA). Mae 174 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn Nhreláі/Caerau ac ers 8 Ionawr 2018 mae'r ysgol mewn ffederasiwn ag Ysgolion Arbennig Riverbank a Woodlands neu Ffederasiwn Campws Dysgu'r Gorllewin.

Cynhaliwyd yr arolwg ESTYN diweddaraf yn 2012. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Rhagorol.

Yn 2017, rhoes Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Gwyrdd (ysgol effeithiol iawn a gynhelir yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Tŷ Gwyn** | | | |
|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol (3-11 oed) |
| 3-19 | Ysgol Arbennig Cyfrwng Saesneg | B | 150 |

| **Niferoedd diweddar ac amcanestyniadau cofrestr Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn | 137 | 147 | 170 | 172 | 173 | 180 | 186 | 192 | 198 | 198 |

### Y newidiadau arfaethedig

Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd ac uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth neu Gyflyrau'r Sbectrwm Awtistig, cynigir

- cynyddu'r lleoedd yn Tŷ Gwyn i hyd at 198 o leoedd

Er mwyn cyflawni hynny, cynigir addasu rhan o adeilad Canolfan Ieuenctid Trelái er mwyn i Ysgol Tŷ Gwyn allu agor tri dosbarth newydd ynddo, a chysylltu'r ysgol ag adeiladau'r ganolfan ieuenctid drwy goridor amgaeedig neu lwybr cerdded dan do.

Byddai'r cynllun yn rhan o broject amlasiantaeth a sefydlwyd gan Raglen Dyfodol Anabledd i ailddatblygu adeilad Canolfan Ieuenctid Trelái er mwyn iddo fod yn adnodd amlasiantaeth cysylltiedig â Champws Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin. Mae'r project wrthi'n ystyried p'un a oes potensial i ddatblygu un ochr i'r adeilad i fod yn ganolfan ar gyfer gwasanaethau amlasiantaeth, ac i ehangu'r defnydd o gyfleusterau chwaraeon a chwarae presennol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn ystod oriau ysgol, gwyliau ac ar ôl ysgol.

**Y rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Bydd angen mwy o leoedd yn yr ysgol dros y 3 blynedd nesaf ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.

Ers i adeilad newydd Tŷ Gwyn agor yn 2010, mae'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysgol bob blwyddyn wedi bod rhwng 4 a 10 yn fwy na'r nifer sy'n gadael. Bellach, mae 173 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd angen mwy o leoedd dros y tair blynedd nesaf hyd nes bod y dosbarthiadau llai wedi gadael yr ysgol. O 2021, bydd y dosbarthiadau sy'n gadael yr ysgol yn fwy o faint, ac yn fwy cyson â'r nifer derbyn blynyddol.

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

Daeth adolygiad o adeiladau presennol yr ysgol i'r casgliad nad oes digon o le i dri dosbarth ychwanegol.

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Byddai'r ysgol yn fwy, byddai mwy o le ganddi, a byddai cyfleoedd ychwanegol i ddatblygu gwaith amlasiantaeth ar y cyd ar y safle.

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Mae Ysgol Tŷ Gwyn yn rhan o Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin ag Ysgolion Arbennig Riverbank a Woodlands sydd yn y cyffiniau. Maen nhw'n ysgolion ar wahân ond un corff llywodraethu sy'n eu harwain gan alluogi'r ysgolion i weithio mewn partneriaeth agosach o lawer er budd y disgyblion ym mhob un o'r tair ysgol. Rhagwelir y byddai datblygu gwaith amlasiantaeth yng Nghanolfan Ieuenctid Trelái o fudd i'r disgyblion ym mhob un o'r tair ysgol.

Mae Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn amlinellu dau gynllun i adeiladu ysgolion arbennig newydd. Os gweithredir hwy, bydd y cynlluniau'n galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â'r problemau o ran lle yn Ysgolion Riverbank a Woodlands, ac i gynnig mwy o leoedd mewn ysgolion arbennig yng Nghaerdydd. Serch hynny, ni fyddai'r cynlluniau hyn yn cael eu cwblhau cyn 2021-22. Mae hwn yn gynnig ar wahân i'r cynlluniau Band B.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- digon o leoedd yn Nhŷ Gwyn ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol
- cynyddu maint Ysgol Tŷ Gwyn
- byddai cyfleusterau chwaraeon, cymunedol ac amlasiantaeth ychwanegol yng Nghanolfan Ieuenctid Trelái o fudd i'r tair ysgol yn Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin: Tŷ Gwyn, Woodlands a Riverbank

**Anfanteision posibl y cynigion**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y cynnig oblygiadau i wasanaethau iechyd a ddarperir mewn partneriaeth â'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i barhau i sicrhau bod anghenion asesedig plant yn cael eu diwallu, ac i barhau i ddatblygu dulliau ar y cyd o hyrwyddo llesiant a deilliannau cadarnhaol i ddisgyblion yr ysgol.

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

Mae arfarniad cychwynnol o oblygiadau priffyrdd a thrafnidiaeth wedi'i gwblhau, ond bydd pob opsiwn yn destun asesiad trafnidiaeth llawn. Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos y gallai'r mannau parcio i staff cyfagos â Pharc Trelái gael eu defnyddio gan staff yr ysgol er mwyn creu ardal gollwng a chasglu a chylch troi mwy yn y maes parcio presennol i staff ar gyfer bysiau mini. Byddai amrywio amseroedd dechrau a gorffen Riverbank, Woodlands a Thŷ Gwyn yn lleihau tagfeydd ar y safle. Byddai Teithio Llesol/Cynaliadwy yn cael ei annog ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr â'r ysgol.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn ar y cynigion gyda ni.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma'ch cyfle chi i roi gwybod i'r Cyngor yr hyn feddyliwch chi o'r cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- E-bostiwch eich barn i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu gweithredu'r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

**Ysgol Arbennig The Hollies**

**Yr Ysgol**

Mae The Hollies yn ysgol arbennig sy'n darparu lleoedd ar gyfer dysgwyr 4-11 oed sydd â chyflyrau'r sbectrwm awtistig ac anghenion meddygol. Mae'r ysgol ym Mhentwyn.

Cynhaliwyd yr arolwg ESTYN diweddaraf ar yr ysgol yn 2013. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Dda.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol The Hollies** | | | |
|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) |
| 4-11 | Ysgol Arbennig Cyfrwng Saesneg | C | 90 |

| **Niferoedd diweddar ac amcanestyniadau cofrestr Ysgol Arbennig The Hollies** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Arbennig The Hollies | 85 | 89 | 83 | 90 | 90 | 102 | 110 | 118 | 126 | 134 |

**Y newidiadau arfaethedig**

Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd ac uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth neu Gyflyrau'r Sbectrwm Awtistig, cynigir:

- estyn ystod oedran Ysgol The Hollies o 4-11 oed, i 4-14 oed
- cynyddu'r ysgol er mwyn iddi gynnig hyd at 138 o leoedd

Er mwyn cyflawni hynny, cynigir darparu rhagor o adeiladau ar gyfer yr ysgol drwy adnewyddu'r adeiladau y bydd Ysgol Glan Morfa'n eu gadael, ar Hinton Street, CF24 2EU

Mae tri opsiwn dan ystyriaeth, o ran cynnal yr ysgol ar ddau safle:

| Opsiwn | Safle Pentwyn | Safle Hinton Street | Manteision | Heriau |
|---|---|---|---|---|
| Opsiwn 1 (ffafrir) | Estyn ac addasu’r adeilad er mwyn cynnig 12 lle ychwanegol i ddisgyblion oed cynradd a gwella cyfleusterau ar gyfer disgyblion presennol. | Addasu’r adeilad i gynnig hyd at 36 o leoedd CA 3. | 12 o leoedd cynradd ychwanegol.<br>36 o leoedd CA3 ychwanegol.<br><br>Gwell adeiladau ar y ddau safle.<br><br>Dim newid yn y lleoliad i ddisgyblion presennol. | Rheoli addasiadau ar safle Pentwyn.<br><br>Mae angen buddsoddiad cyfalaf ar y ddau safle.<br><br>Addasu adeilad cynradd er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer CA3. |
| Opsiwn 2 | Estyn a gwella adeiladau er mwyn cynnig hyd at 102 o leoedd CA2 a CA3. | Addasu adeiladau er mwyn darparu hyd at 36 o leoedd Cyfnod Sylfaen. | 12 o leoedd cynradd ychwanegol.<br><br>36 o leoedd CA3 ychwanegol.<br><br>Gwell adeiladau ar y ddau safle.<br><br>Byddai angen llai o addasu ar safle Hinton Street. | Rheoli addasiadau ar safle Pentwyn.<br><br>Mae angen buddsoddiad cyfalaf ar y ddau safle.<br><br>Byddai gofyn adleoli rhai dosbarthiadau presennol. |
| Opsiwn 3 | Peidio â newid y defnydd presennol: 90 o leoedd ar gyfer disgyblion oed cynradd. | Addasu adeiladau er mwyn darparu 48 o leoedd: 12 CA2 uchaf a 36 CA3. | 12 o leoedd cynradd ychwanegol.<br><br>36 o leoedd CA3 ychwanegol.<br><br>Dim tarfu ar y safle presennol. | Dim buddsoddiad cyfalaf ar safle Pentwyn.<br><br>Rhannu darpariaeth gynradd rhwng y ddau safle. |

**Rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Mae’r galw am leoedd yn yr ysgol ar gyfer plant ag anghenion corfforol a meddygol wedi gostwng dros sawl blwyddyn, tra bod yr adran awtistiaeth wedi tyfu. Cyflyrau’r sbectrwm awtistig (CSA) sydd gan bob disgybl yn yr ysgol bellach.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd angen lleoedd cynradd ac uwchradd ychwanegol ar gyfer dysgwyr â chyflyrau’r sbectrwm awtistig. Byddai rhagor o leoedd ar gyfer ystod ehangach o oedrannau’n diwallu’r angen yn y cyfnod cynradd ac uwchradd.

Mae The Hollies yn ysgol dda, uchel ei pharch yng ngolwg rhieni a gofalwyr. Mae gan y staff a’r tîm arweinyddiaeth brofiad sylweddol o ddarparu addysg o safon ar gyfer

plant cynradd sydd â chyflyrau’r sbectrwm awtistiaeth arnynt, a fyddai’n sylfaen gref i ddatblygu darpariaeth CA3 ar gyfer plant â CSA.

Mae disgwyl y bydd Ysgol Glan Morfa yn trosglwyddo i safle adeilad newydd fis Awst 2018 (yn sgil cynnydd ym maint yr ysgol o un dosbarth mynediad i ysgol dau ddosbarth mynediad). Cynigir i Ysgol The Hollies gael yr adeiladau ysgol gwag ar Hinton Street, Sblot, ac i’r rheiny gael eu haddasu i gynnig mwy o le i Ysgol The Hollies.

Mae adeilad Ysgol Glan Morfa mewn cyflwr da ar y cyfan, ond byddai gofyn ei adnewyddu a’i addasu at ddefnydd ysgol arbennig.

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

Canfuwyd mewn adolygiad o adeiladau presennol yr ysgol bod peth potensial i ddatblygu ystafelloedd dosbarth ychwanegol ar y safle, ond na fyddai digon o le i ddatblygu adran CA3.

Ystyriwyd y posibilrwydd o addasu’r llawr uwch, ond mae’n debyg y bydd y gost o osod dihangfa dân yn ormodol ac y byddai’n cyfaddawdu ar y gofod ar y llawr gwaelod. Byddai unrhyw gynllun i greu ystafelloedd dosbarth ychwanegol drwy ddisodli ystafelloedd i’r staff i’r llawr uwch yn rhesymegol gymhleth ac yn golygu gwaith adeiladu mewn sawl cam dros nifer o flynyddoedd, gan amharu ar addysgu a dysgu’r disgyblion presennol. Ar ben hynny, nid yw’r cyngor o’r farn fod y safle yn ei gyfanrwydd yn gallu cynnig digon o ofod awyr agored, gofod arlwyo, ardaloedd chwarae therapiwtig, parcio/ mynediad i draffig ar gyfer 48 o ddisgyblion ychwanegol, a’r cynnydd cysylltiedig yn niferoedd y staff.

Cwblhawyd gwerthusiad cychwynnol o oblygiadau priffyrdd a thrafnidiaeth ac awgrymwyd y byddai goblygiadau sylweddol pe ychwanegid 48 o leoedd ar y safle presennol.

Ystyriwyd yr opsiwn o sefydlu ysgol arbennig CA3 newydd ar safle Hinton Street, ond cafodd honno ei diystyru. Mae’r Cyngor am weithio gydag ysgol arbennig profiadol a hir sefydledig sydd â hanes o arbenigedd ym maes CSA er mwyn datblygu lleoliad bychan yn y lle cyntaf, ond a fyddai’n debygol o dyfu’n gyflym dros 3-5 mlynedd.

**Sut byddai’r newidiadau’n effeithio ar yr ysgol?**

Byddai’r ysgol yn sylweddol fwy ei maint a byddai’n defnyddio mwy nag un safle. Byddai goblygiadau yn sgil hynny i strwythur reoli’r ysgol, y cwricwlwm a’r cyfleusterau. Os gweithredir y cynnig, byddai’r awdurdod lleol yn cynorthwyo’r Corff Llywodraethu i bennu strwythur rheoli a staffio er mwyn hwyluso datblygiad yr ysgol.

Byddai datblygu ail safle ac adran Cyfnod Allweddol 3 yn cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff presennol a byddai’n galluogi’r corff llywodraethu i benodi staff newydd gan ddod â phrofiad ac arbenigedd newydd i’r ysgol.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Ar hyn o bryd, mae'r opsiynau uwchradd i ddisgyblion sy'n gadael The Hollies ym Mlwyddyn 6 yn cynnwys:

- Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn Ysgolion Uwchradd Llanisien, Cathays neu Cantonian;
- Canolfan Marion, Ysgol Esgob Llandaf
- Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
- Ysgol Arbennig y Deri, Bro Morgannwg

Byddai'r opsiynau hyn i ddisgyblion Blwyddyn 6 The Hollies yn parhau yn ogystal â'r opsiwn o aros yn The Hollies ar gyfer CA3. Byddai gan ddisgyblion sy'n cael lle CA3 yn The Hollies y cyfle i drosglwyddo i un o'r ysgolion uchod i gwblhau eu lleoliad CA4.

Byddai'r lleoliadau CA3 hefyd yn agored i ddisgyblion eraill yng Nghaerdydd pe byddai angen trosglwyddo arnynt i le mewn ysgol arbennig o ganolfannau adnoddau arbenigol neu ddarpariaeth prif ffrwd.
Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd angen lleoedd CA4 ac ôl-16 oed mewn ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbennig o fewn 2-3 blynedd er mwyn darparu ar gyfer y niferoedd uwch sydd bellach yn trosglwyddo o leoedd Cynradd i Uwchradd. Gellid darparu'r lleoedd hyn drwy gynlluniau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, neu drwy Gynllun Datblygu ADY 2018-22.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- Cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd arbennig ar gyfer disgyblion â Chyflyrau'r Sbectrwm Awtistig
- Gwell adeiladau ar gyfer The Hollies
- Adran CSA CA3 newydd, fydd wedi'i datblygu gan ysgol arbennig hir sefydledig a phrofiadol
- Rhagor o opsiynau CA3 ar gyfer disgyblion â CSA

**Anfanteision posibl y cynigion**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y cynnig oblygiadau i wasanaethau iechyd a ddarperir mewn partneriaeth â'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i barhau i sicrhau bod anghenion asesedig plant yn cael eu diwallu, a pharhau i ddatblygu dulliau ar y cyd o wella llesiant a deilliannau cadarnhaol disgyblion yr ysgol.

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

Mae arfarniad cychwynnol o oblygiadau priffyrdd a thrafnidiaeth wedi'i gwblhau, ond byddai pob opsiwn yn destun asesiad trafnidiaeth llawn. Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos y byddai angen rhagor o fannau parcio i staff a man troi ar gyfer traffig ychwanegol er mwyn lleihau tagfeydd a rheoli unrhyw draffig ychwanegol yn well. Byddai angen sicrhau bod amseroedd dechrau a gorffen yn wahanol i Ysgol Gynradd

Moorland, ar Singleton Road, er mwyn lleihau tagfeydd. Byddai Teithio Llesol/Cynaliadwy yn cael ei annog ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr â'r ysgol.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:
- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu'r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

## Ysgol Arbennig Greenhill

### Yr Ysgol

Mae Ysgol Greenhill yn ysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant 11-16 oed. Mae'r ysgol yn Rhiwbeina.

Un o'r cynlluniau sydd â blaenoriaeth yn yr adroddiad 'Ysgolion yr 21ain Ganrif - blaenoriaethau Band B Cyngor Caerdydd' yw adeiladu ysgol arbennig uwchradd ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant. Byddai'r cynllun Band B yn galluogi'r Cyngor i ddarparu adeilad newydd yn lle'r adeilad â sgôr 'D' sydd gan Ysgol Greenhill ar hyn o bryd.

Byddai'r cynnig yn y llyfryn hwn yn annibynnol ar y cynllun Band B, ond byddai'n gam tuag at gyflawni un o'r nodau yn y cynllun Band B – sef cynnwys darpariaeth ôl-16 oed mewn ysgol newydd yn y dyfodol.

Cynhaliwyd arolwg ESTYN diweddaraf yr ysgol yn 2013. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Dda.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Gwyrdd (ysgol effeithiol iawn a gynhelir yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir yn ei blaenoriaethau ar gyfer gwella).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Greenhill** | | | |
|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) |
| 11-16 | Ysgol Arbennig Cyfrwng Saesneg | D | 56 |

| **Niferoedd diweddar ac amcanestyniadau cofrestr Ysgol Arbennig Greenhill** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | Ionawr 2017 (NAYG) | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Arbennig Greenhill | 50 | 54 | 47 | 56 | 55 | 64 | 64 | 64 | 64 | 64 |

**Y newidiadau arfaethedig**

Er mwyn ateb y galw am leoedd ôl-16 oed ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion o ran eu hiechyd emosiynol a'u llesiant, cynigir:

- Ymestyn ystod oedran Greenhill o 11-16 oed i 11-19 oed
- cynyddu'r ysgol er mwyn iddi gynnig hyd at 64 o leoedd

Er mwyn cyflawni hyn, cynigir addasu tŷ'r gofalwr ar y safle, nad yw'n cael ei ddefnyddio. Byddai disgyblion ôl-16 oed yn mynd i rai dosbarthiadau ar y safle, ond bydden nhw hefyd yn cael cymorth i fanteisio ar gyfleoedd addysgol priodol oddi ar y safle, yn rhan o gymorth pontio i'r coleg neu gyflogaeth.

**Rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Mae data Caerdydd yn dangos bod llawer o ddisgyblion Greenhill yn cael trafferth pontio'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ddiwedd Blwyddyn 11, er gwaethaf cymorth pontio sylweddol.

Mae data 2015-17 yn dangos nad oedd 50% neu fwy o'r rhai'n gadael Greenhill mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar 31 Hydref.

| Carfan | Nifer | NEET | % |
|---|---|---|---|
| 2015 | 18 | 10 | 56 |
| 2016 | 6 | 3 | 50 |
| 2017 | 10 | 5 | 50 |

Byddai dosbarth ôl-16 oed yn 'flwyddyn bontio' ar gyfer disgyblion Greenhill nad ydyn nhw'n barod i ddechrau yn y coleg neu ym myd gwaith ar ddiwedd Blwyddyn 11. Byddai disgyblion yn cael cymorth i bontio'n llwyddiannus i goleg, hyfforddiant neu gyflogaeth erbyn diwedd Blwyddyn 12.

Byddai angen i Weinidogion Cymru gytuno i estyn ystod oedran Ysgol Greenhill er mwyn cynnwys addysg ôl-16 oed yn rhan o'r cynnig hwn.

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

Ystyriwyd yr opsiwn i aros am y cynllun Band B cyn gwneud newidiadau i ystod oedran Greenhill, ond ni fyddai hynny'n diwallu anghenion disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn y blynyddoedd nesaf.

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Mae gan yr ysgol arbenigedd a phrofiad perthnasol i ddarparu ar gyfer disgyblion ôl-16 oed, ond byddai angen datblygu cwricwlwm ôl-16 oed yn seiliedig ar gynorthwyo disgyblion i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r coleg neu gyflogaeth erbyn diwedd Blwyddyn 12.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Nid oes disgwyl y byddai unrhyw effaith ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai'r disgyblion ôl-16 yn cael eu derbyn i'r ysgol yng Nghyfnodau Allweddol 3 neu 4. Serch hynny, ni fyddai unrhyw leoedd ar gyfer disgyblion o ysgolion eraill.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- Gwell darpariaeth ar gyfer disgyblion ôl-16 oed ag anghenion o ran eu hiechyd emosiynol a'u llesiant.
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff presennol Greenhill

**Anfanteision posibl y cynigion**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y cynnig oblygiadau i wasanaethau iechyd a ddarperir mewn partneriaeth â'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i barhau i sicrhau bod anghenion asesedig plant yn cael eu diwallu, a pharhau i ddatblygu dulliau ar y cyd o wella llesiant a deilliannau cadarnhaol disgyblion yr ysgol.

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

Mae arfarniad cychwynnol o oblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth wedi'i gwblhau, ond byddai pob opsiwn yn amodol ar asesiad cludiant llawn. Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos bod y trefniadau presennol yn addas i'r safle. Dylid annog Hyfforddiant Teithio i bob disgybl er mwyn hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus pan fo modd. Byddai Teithio Llesol/Cynaliadwy yn cael ei annog ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr â'r ysgol.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu'r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

**Ysgol Arbennig Meadowbank**

**Yr Ysgol**

Mae Meadowbank yn ysgol arbennig ar gyfer hyd at 40 o ddisgyblion 4-11 oed â namau iaith penodol. Mae’r ysgol, sydd yn y Gabalfa, yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod. Mae’r nifer ar y gofrestr yn yr ysgol, sef 15 ar hyn o bryd, yn gostwng ers sawl blwyddyn.

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf ESTYN ar yr ysgol yn 2013. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol yn Dda, a bod ei rhagolygon gwella’n Ddigonol. Daeth yr ysgol yn destun gwaith monitro ESTYN. Canfuwyd mewn ymweliad dilynol bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran camau allweddol, ac ni fonitrwyd yr ysgol wedi hynny.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru’r ysgol yn y categori cymorth Gwyrdd (ysgol effeithiol iawn a gynhelir yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy’n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella).

.

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Meadowbank** | | | |
|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori’r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol<br>(4-11 oed) |
| 4-11 | Ysgol Arbennig Cyfrwng Saesneg | B | 40 |

| **Niferoedd diweddar cofrestr ac amcanestyniadau Ysgol Arbennig Meadowbank** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | Ionawr 2017 (NAYG) | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Arbennig Meadowbank | 30 | 29 | 22 | 17 | 15 | 25 | 35 | 40 | 40 | 40 |

**Y newidiadau a gynigir**

Er mwyn ateb y galw am leoedd ysgol arbennig cynradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth, cynigir:

- newid math yr angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn ei darparu, *o'r canlynol*: 'namau iaith penodol', *i'r canlynol:* 'anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac anableddau dysgu cymhleth'

Mae adeiladau presennol Meadowbank mewn cyflwr da, ond byddai angen rhai addasiadau i'r adeiladau, gan gynnwys darpariaeth o ran man newid a gwelliannau i hygyrchedd yr adeilad.

**Rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Ni ddefnyddir diagnosis 'nam iaith penodol' mwyach. Cynigir, felly, i ddefnyddio'r term cyffredin canlynol yn nynodiad yr ysgol: 'anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu'.

Dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae'r ysgol yn derbyn disgyblion sydd ag anghenion lleferydd ac iaith penodol, hirdymor a difrifol. Pe câi'r dynodiad ei newid fel y cynigir, byddai'r ysgol yn parhau i dderbyn disgyblion ag anghenion lleferydd ac iaith penodol, hirdymor a difrifol, ond byddai hefyd yn derbyn disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth.

Byddai newid dynodiad yr ysgol yn unol ag un o'r argymhellion a wnaed gan y grŵp cyfeirio lleferydd ac iaith yn sicrhau'r canlynol:

- y parheir i gynnig lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr â'r anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mwyaf difrifol a hirdymor;
- lleoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth;
- bod Ysgol Meadowbank yn parhau i fod yn ariannol hyfyw.

Mae gan blant ag anableddau dysgu cymhleth anawsterau iaith a chyfathrebu cysylltiedig yn fynych. Mewn achosion o'r fath, bydden nhw'n elwa ar wybodaeth a phrofiad arbenigol staff Meadowbank.

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

Ystyriwyd newid y dynodiad er mwyn iddo gynnwys naill ai cyflyrau'r sbectrwm awtistig neu anghenion iechyd emosiynol a llesiant. Diystyriwyd hynny oherwydd na thybir bod adeiladau'r ysgol yn addas ar gyfer y grwpiau hyn.

Argymhellodd y grŵp cyfeirio lleferydd ac iaith bod y Cyngor yn ystyried dosbarthiadau 'ymyrraeth gynnar'. Byddai dosbarthiadau o'r math hwn yn cynnig lleoliadau dros dro i ddysgwyr lle na ddisgwylir i'w hanghenion fod yn rhai hirdymor, nad ydyn nhw'n gwneud digon o gynnydd gyda chymorth prif ffrwd yn unig.

Awgrymodd y grŵp y gallai naill ai Ysgol Meadowbank neu Allensbank agor dosbarth ymyrraeth gynnar.

Nid yw'r Cyngor yn cynnig agor dosbarthiadau ymyrraeth gynnar yn Ysgol Meadowbank am y rhesymau canlynol:

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion lleferydd ac iaith yn gwneud cynnydd yn gynt o gael cyfleoedd aml, anffurfiol i gymdeithasu, chwarae a dysgu gyda chyfoedion heb anawsterau lleferydd nac iaith. Mae'n haws a mwy naturiol cynnig y cyfleoedd prif ffrwd hyn mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Mae ysgolion arbenigol yn gallu ymdrechu i gynnig cyfleoedd tebyg drwy raglenni ail-integreiddio a lleoliadau dydd, ond mae costau ychwanegol yn rhan o'r cyfleodd hyn i anfon cynorthwywyr cymorth gyda'r plentyn a gwneud trefniadau teithio gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol.

Mae'n well gan rieni nifer o blant ag anghenion lleferydd ac iaith penodol i'w plant aros yn y brif ffrwd. Mae'r awdurdod lleol o'r farn y dylid cynnal dosbarthiadau ymyrraeth gynnar mewn ysgolion prif ffrwd er mwyn cydnabod barn rhieni ac er mwyn ei gwneud yn haws ail-integreiddio plant mewn ysgol leol yn gynnar.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Byddai'r newidiadau a gynigir yn sicrhau y byddai'r nifer ar gofrestr yr ysgol yn cynyddu yn ystod y 3-4 blynedd nesaf ac y byddai swyddogaeth yr ysgol yn parhau fel rhan o'r ddarpariaeth arbenigol yng Nghaerdydd. Byddai gofyn i'r Corff Llywodraethu weithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu meysydd arbenigedd a chyfleusterau ychwanegol yn yr ysgol.

Mae ysgolion arbenigol eraill yng Nghaerdydd sy'n darparu ar gyfer mwy nag un math o angen dysgu ychwanegol. Byddai'r ysgol yn penderfynu ar y dull gorau o ddarparu ar gyfer ystod o anghenion. Pe bai'r anghenion yn debyg, gallai hynny gynnwys dosbarthiadau cymysg, a gellid cadw dosbarthiadau ar wahân i ddiwallu anghenion gwahanol.

Mae'r awdurdod lleol yn comisiynu'r ysgol i ddarparu gwasanaeth allgymorth i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Cynigir cadw'r gwasanaeth allgymorth hwn, ac mewn partneriaeth â'r ysgol, cynigir ystyried eu potensial i ddatblygu eu rôl ymhellach o ran meithrin gallu i ddarparu ar gyfer anghenion lleferydd ac iaith.

Byddai cyfleoedd hyfforddiant a datblygu proffesiynol yn cael eu cynnig i staff er mwyn parhau i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol i ddarparu ar gyfer anableddau dysgu cymhleth.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

O'u rhoi ar waith, byddai'r newidiadau'n lleihau pwysau ar leoedd yn Ysgol Arbennig Riverbank, a'r canolfannau adnoddau arbenigol yn Ysgolion Cynradd Bryn Hafod, Marlborough, Llanedern a Llanisien Fach. Os nad yw'r cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd y lleoliadau hyn dan bwysau i gofrestru mwy o blant i ymateb i'r galw am leoedd.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- Lleoedd ychwanegol i ddiwallu'r angen cynyddol am leoedd ysgol arbennig ar gyfer plant ag anableddau dysgu cymhleth
- Y parheir i gynnig lleoedd ysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu difrifol a hirdymor
- Cyfleoedd datblygu proffesiynol i staff presennol Meadowbank
- Cyfleoedd i gorff llywodraethu Meadowbank i benodi staff newydd, wrth i niferoedd disgyblion gynyddu, ac i ddenu arbenigedd newydd i'r ysgol

**Anfanteision posibl y cynigion**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan y cynnig oblygiadau i wasanaethau iechyd a ddarperir mewn partneriaeth â'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i barhau i sicrhau bod anghenion asesedig plant yn cael eu diwallu, ac i barhau i ddatblygu dulliau ar y cyd o wella llesiant a deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion yn yr ysgol.

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

Mae arfarniad cychwynnol o oblygiadau priffyrdd a thrafnidiaeth wedi'i gwblhau, ond bydd pob opsiwn yn destun asesiad trafnidiaeth llawn. Mae'r asesiad cychwynnol yn dangos bod man troi'r ysgol yn addas i'r disgyblion fydd yn defnyddio'r safle. Mae amrywiaeth o welliannau i briffyrdd eisoes wedi'u cynllunio fel rhan o waith adeiladu newydd Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Gynradd Gabalfa. Byddai Teithio Llesol/Cynaliadwy yn cael ei annog ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr â'r ysgol.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu'r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

**Ysgol Gynradd Allensbank**

**Yr Ysgol**

Mae Allensbank yn ysgol gynradd gymunedol yn Cathays. Mae'r ysgol yn gartref i ganolfan adnoddau arbenigol (CAA) 16-20 lle ar gyfer disgyblion ag anghenion llefaredd, iaith a chyfathrebu.

Mae CAA yn ddosbarth bach mewn ysgol prif ffrwd, y mae staff arbenigol yn ei addysgu. Er bod y canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion cymunedol, maen nhw'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod ac nid o'u hardal leol eu hunain yn unig. Mae disgyblion mewn CAA yn elwa ar gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach â chymarebau disgybl-staff ffafriol, gyda staff arbenigol. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu a chwarae gyda'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

Cynhaliwyd arolwg diweddaraf yr ysgol yn 2013. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Ddigonol, a bod angen i'r ysgol wella'n sylweddol. Mewn ymweliad dilynol yn 2015, canfuwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd ar y camau gweithredu a argymhellwyd, nad oedd angen iddi wella'n sylweddol mwyach, ac yn sgil hynny ei bod wedi ei thynnu oddi ar restr monitro ESTYN.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Oren (Ysgol sydd angen gwella ac sydd angen cymorth i adnabod y camau i wella neu i weithredu newid yn gynt).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Allensbank** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Nifer lleoedd cyhoeddedig (rhan amser yn y feithrinfa) | Canolfan adnoddau arbenigol, dynodiad |
| 3-11 | Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg | C+ | 300 | 64 | 16-20 o leoedd ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu |

| Niferoedd diweddar cofrestr ac amcanestyniadau Ysgol Gynradd Allensbank | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 242 | 252 | 246 | 233 | 210 | 230 | 217 | 198 | 192 | 192 |
| CAA Ysgol Gynradd Allensbank | 14 | 11 | 10 | 8 | 6 | 4 | 12 | 10 | 8 | 8 |

## Y newidiadau arfaethedig

Er mwyn diwallu'r angen am leoedd ymyrraeth gynnar ar gyfer plant ag anghenion lleferydd ac iaith, cynigir

- Dirwyn y ganolfan adnoddau arbennig yn Ysgol Gynradd Allensbank i ben, gan gau'r dosbarth ym mis Gorffennaf 2020, neu pan fo pob un o'r disgyblion presennol wedi cwblhau eu lleoliad cynradd os digwydd hynny'n gynt.
- Agor dosbarth ymyrraeth gynnar ag wyth lle ynddo ar gyfer plant ag anghenion lleferydd ac iaith yn Ysgol Gynradd Allensbank, a derbyn y disgyblion cyntaf iddo ym mis Medi 2019.

## Rhesymeg y newidiadau arfaethedig

Mae'r galw am leoedd yn y Ganolfan Adnoddau Arbennig wedi gostwng dros nifer o flynyddoedd.  Bellach, mae chwe disgybl a phob un yng Nghyfnod Allweddol 2. Tybir mai newidiadau i'r modd y mae'r gwasanaeth addysg a'r gwasanaeth therapi yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd i adnabod a diwallu anghenion yn gynnar sydd wrth wraidd y gostyngiad.  Mae llai o blant yn cael datganiad ar sail eu hanghenion lleferydd ac iaith, ac mae'r rhan fwyaf yn cael eu cyflwyno'n gymharol hwyr, pan fo'r plant eisoes yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae cyflwyno llai o ddatganiadau'n ganlyniad i waith ymyrraeth gynnar effeithiol, ond mae hefyd wedi arwain yn anfwriadol at oedi mewn mynediad i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer y plant mwyaf anghenus.

Agor dosbarth ymyrraeth gynnar yw'r datrysiad sy'n cael ei gynnig.  Mae cymorth dwys mewn dosbarth arbenigol fwyaf effeithiol os caiff ei ddarparu cyn gynted â phosibl. Byddai lleoliadau mewn dosbarth ymyrraeth gynnar felly yn cael eu nodi gan y panel lleferydd ac iaith arbenigol ac ni fyddai'n dibynnu ar ddatganiad.

Byddai'r dosbarth ymyrraeth gynnar yn agor ym mis Medi 2019. Byddai'r meini prawf derbyn, staff, y cwricwlwm a'r modd gweithredu'n cael eu hystyried yn y lle cyntaf a'u cytuno'n llawn mewn partneriaeth â'r corff llywodraethu a'r gwasanaeth therapi, a thrwy ymgynghori ag ysgolion eraill.

Ar sail gwaith rhagarweiniol i ddiffinio'r dull, rhagwelir y byddai'r dosbarth yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen nad ydyn nhw'n gwneud cynnydd digonol, ond y mae eu rhagolygon o ailymuno â'u hysgol prif ffrwd leol yn dda. Byddai lleoliadau'n para 1-3 blynedd gan ddibynnu ar gynnydd. Byddai disgyblion yn cael eu cofrestru yn y ddwy ysgol a bydden nhw'n cael cymorth ar ddiwedd y lleoliad. Byddai disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos er mwyn cynnal cysylltiadau â ffrindiau lleol ac er mwyn paratoi i ailintegreiddio'n gynnar yn llwyddiannus yn eu hysgol leol.

Byddai'r ganolfan adnoddau arbennig yn cael ei chau'n raddol er mwyn galluogi disgyblion presennol i gwblhau eu haddysg yn y ganolfan. Ni fyddai disgyblion â datganiadau'n cael eu derbyn: byddai gan ddisgyblion ag anghenion difrifol a phenodol ddatganiadau prif ffrwd neu gael cyfle i fynd i Ysgol Arbennig Meadowbank.

Mae'r Cyngor wedi adolygu llwythi achosion disgyblion y gŵyr y Gwasanaeth Lleferydd ac Iaith ar y cyd amdanynt yn 2017 er mwyn darogan lefel yr angen am ddosbarth ymyrraeth gynnar. Byddai wyth lle mewn lleoliad cyfrwng Saesneg yn briodol i ddiwallu'r angen presennol. Caiff hyn ei fonitro, ac ystyrir agor ail ddosbarth yn y dyfodol fel y bo angen.

Mae'r galw am ddosbarth cyfrwng Cymraeg yn annigonol ar hyn o bryd. Caiff hyn ei fonitro, ac ystyrir agor dosbarth yn y dyfodol fel y bo angen. Yn y cyfamser, mae modd datblygu pecyn cymorth dwys yn y brif ffrwd os ceir disgyblion unigol mewn ysgolion Cymraeg nad ydyn nhw'n gwneud cynnydd digonol gyda chymorth yr ysgol.

Mae'r Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith wedi dangos ei fod yn fodlon gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu hyn, ac i roi cymorth a mewnbwn parhaus yn unol ag anghenion asesedig disgyblion.

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

Argymhellodd y grŵp cyfeirio lleferydd ac iaith fod y Cyngor yn ystyried dosbarthiadau 'ymyrraeth gynnar' yn Ysgol Gynradd Meadowbank neu Allensbank.

Penderfynodd y Cyngor y byddai'n well cynnal y math hwn o ddarpariaeth mewn ysgol gynradd prif ffrwd am y rhesymau canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion lleferydd ac iaith yn gwneud cynnydd yn gynt o gael cyfleoedd aml, anffurfiol i gymdeithasu, chwarae a dysgu gyda chyfoedion heb anawsterau lleferydd nac iaith. Mae'n haws a mwy naturiol cynnig y cyfleoedd prif ffrwd hyn mewn canolfan adnoddau arbenigol.

Mae ysgolion arbenigol yn gallu ymdrechu i gynnig cyfleoedd tebyg drwy raglenni ail-integreiddio a lleoliadau dydd, ond mae costau ychwanegol yn rhan o'r cyfleodd hyn i

anfon cynorthwywyr cymorth gyda'r plentyn a gwneud trefniadau teithio gwahanol ar ddiwrnodau gwahanol.

- Mae'n well gan rieni nifer o blant ag anghenion lleferydd ac iaith penodol i'w plant aros yn y brif ffrwd. Mae'r awdurdod lleol o'r farn y dylid cynnal dosbarthiadau ymyrraeth gynnar mewn ysgolion prif ffrwd er mwyn cydnabod barn rhieni ac er mwyn ei gwneud yn haws ail-integreiddio plant mewn ysgol leol yn gynnar.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Mae gan yr ysgol brofiad o gynnal Canolfan Adnoddau Arbennig ar gyfer plant ag anghenion llefaredd ac iaith penodol; byddai cynnal dosbarth ymyrraeth gynnar felly'n cael effaith debyg ar yr ysgol. Yn lle 4-11 oed, 4-7 oed fyddai ystod oedran y disgyblion. Câi disgyblion eu cofrestru ddwywaith gyda'r bwriad y bydden nhw'n dychwelyd i'w hysgolion eu hunain. Yn rhan o hynny, byddai angen gwaith partneriaeth agos ag ysgol leol pob plentyn a chymorth gyda'r broses ailintegreiddio.

Byddai'r awdurdod lleol yn gweithio gyda'r Corff Llywodraeth i gynorthwyo i ddatblygu sgiliau newydd a ffyrdd o weithio gan gynnwys darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Byddai ysgolion eraill yn elwa ar y cyfle i weithio mewn partneriaeth â'r dosbarth ymyrraeth gynnar er mwyn rhoi cymorth i ddisgyblion nad ydyn nhw'n gwneud cynnydd gyda chymorth eu hysgolion yn unig.

Pan fo disgyblion yn trosglwyddo i ganolfan adnoddau arbenigol (CAA), mae hynny fel arfer yn gam parhaol. Mae'r cyfrifoldeb am ddysgu a llesiant y plentyn yn trosglwyddo i ganolfan CAA yr ysgol. Mae'r cynnig am ddosbarth ymyrraeth gynnar yn wahanol oherwydd y byddai'n cynnig lleoliadau dros dro, ac y byddai'r plentyn wedi'i gofrestru yn ei ysgol leol yn ogystal ag Allensbank. Byddai'r ysgol leol yn parhau i chwarae rhan gan roi cyfleoedd i'r plentyn i fynychu ddiwrnod yr wythnos, gweld ffrindiau lleol a chael cymorth da i fynd yn ôl i'r ysgol leol ar ôl gwneud digon o gynnydd.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- Sicrhau bod plant ag anghenion llefaredd ac iaith difrifol nad ydyn nhw'n gwneud digon o gynnydd gyda chymorth prif ffrwd yn unig yn gallu parhau i ddefnyddio darpariaeth arbenigol a chael cymorth i wireddu eu potensial
- Sicrhau mai ymyrraeth gynnar yw'r canolbwynt mewn darpariaeth arbenigol, gan gynorthwyo plant tra eu bod yn y Cyfnod Sylfaen
- Bydd plant mewn darpariaeth arbenigol yn gallu cynnal eu cysylltiadau ag ysgol leol a dychwelyd yno gyda chymorth ar ôl gwneud digon o gynnydd
- Bydd gan Ysgol Gynradd Allensbank gyfleoedd i barhau i ddatblygu'r sgiliau a'r arbenigedd y maen nhw'n eu cynnig i blant gydag anghenion lleferydd ac iaith

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

N fyddai goblygiadau newydd i drafnidiaeth a phriffyrdd.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu'r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair**

**Yr Ysgol**

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yn Butetown. Does dim darpariaeth arbenigol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf o'r ysgol yn 2012. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Rhagorol.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Oren (Ysgol sydd angen gwella ac sydd angen cymorth i adnabod y camau i wella neu i weithredu newid yn gynt).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Nifer lleoedd cyhoeddedig (rhan amser yn y feithrinfa) |
| 3 -11 | Ysgol Wirfoddol a Gynhelir Cyfrwng Saesneg | C | *210 | 52 |

* Cymeradwywyd camau i weithredu cynnig i gynyddu'r ysgol i 420 o leoedd.

| **Niferoedd diweddar cofrestr ac amcanestyniadau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair | 162 | 172 | 189 | 176 | 186 | 181 | 180 | 176 | 180 | 180 |

**Y newidiadau arfaethedig**

Er mwyn ateb y galw am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol cynradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth, cynigir:

- agor canolfan adnoddau arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair gyda hyd at 20 o leoedd.

Byddai ystafell yn cael ei darparu ar gyfer y ganolfan CAA fel rhan o gynllun Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif i ailadeiladu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair. Ni fyddai'r CAA yn agor hyd nes bod y lleoliad yn yr adeilad newydd ar gael.

**Rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Yn 2015 bu'r Cyngor yn ymgynghori ar gynigion i adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair. Yn eu hymateb ffurfiol, gofynnodd y Corff Llywodraethu i'r awdurdod lleol ystyried agor canolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol. Oherwydd y galw cynyddol am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol, cytunodd yr awdurdod lleol, mewn egwyddor, i ystyried y datblygiad hwn, yn amodol ar ymgynghoriad statudol.

A hithau'n ysgol wirfoddol a gynhelir, corff llywodraethu'r ysgol fyddai'n penderfynu ar y cynnig.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Mae CAA yn ddosbarth bach mewn ysgol prif ffrwd, gyda staff arbenigol yn ei haddysgu. Mae CAA yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod ac nid o'u hardal leol eu hunain yn unig. Mae disgyblion mewn CAA yn elwa ar gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach â chymarebau disgybl-staff ffafriol, gyda staff arbenigol. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu a chwarae gyda'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

Yr awdurdod lleol fyddai'n rheoli'r broses dderbyn i'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol gan ddibynnu ar ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, a byddai'n agored i ddisgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Bydd y cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol o ran cynhwysiant a bydd o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Mae pedair ysgol gynradd yng Nghaerdydd sydd â chanolfannau CAA ar gyfer disgyblion ag anableddau dysgu cymhleth: Ysgolion cynradd Bryn Hafod, Llanedern, Llanisien Fach a Marlborough. Mae pob canolfan adnoddau arbenigol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod, ond caiff disgyblion gynnig lle yn y ganolfan adnoddau arbenigol sydd agosaf atyn nhw cyn belled ag y bo modd. Byddai CAA yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair yn ychwanegu at nifer y lleoedd sydd ar gael i ateb y galw, a byddai'n sicrhau bod disgyblion yn ochr ddeheuol canol y ddinas yn teithio llai o bellter i gael darpariaeth arbenigol.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- lleoedd ychwanegol i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol
- gallai plant yn ochr ddeheuol canol Caerdydd fynd i ganolfan CAA sy'n nes i'w cartrefi

Byddai Ysgol Gynradd y Forwyn Fair yn elwa ar arbenigedd ychwanegol staff y CAA.

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

Caiff oblygiadau priffyrdd a thrafnidiaeth eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer yr adeilad ysgol newydd.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma'ch cyfle i roi gwybod i'r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o'r dulliau canlynol:
- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- E-bostiwch eich barn i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu'r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i'r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

**Ysgol Gymraeg Pwll Coch**

**Yr Ysgol**

Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ysgol gynradd gymunedol yn Nhreganna.
Does dim darpariaeth arbenigol yn yr ysgol ar hyn o bryd. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf ar yr ysgol yn 2011. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Dda.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Gymraeg Pwll Coch** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Nifer lleoedd cyhoeddedig (rhan amser yn y feithrinfa) |
| 3 -11 | Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg | A | 420 | 64 |

| **Niferoedd diweddar ar gofrestr ac amcanestyniadau Ysgol Pwll Coch** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | | | | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Pwll Coch | 441 | 449 | 441 | 442 | 422 | 430 | 406 | 409 | 405 | 405 |

**Y newidiadau arfaethedig**

Er mwyn ateb y galw am leoedd CAA cynradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau'r sbectrwm awtistig yn y sector Cymraeg, cynigir

- agor canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Pwll Coch â 10 lle i ddechrau, gyda'r potensial o gynyddu i 20 lle yn y dyfodol wrth i'r galw gynyddu.

Byddai'r CAA yn cael ei sefydlu yn un o ystafelloedd presennol yr adeilad ond byddai angen rhywfaint o waith adnewyddu.

**Rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn tyfu yng Nghaerdydd. Oherwydd hynny, mae nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sector hefyd wedi tyfu, gan gynnwys y nifer sydd angen darpariaeth arbenigol.

Mae canolfan adnoddau arbenigol hir sefydledig yn Ysgol Coed y Gof sy'n cynnig hyd at 10 o leoedd ar gyfer pob math o angen dysgu ychwanegol. Nid yw hynny'n ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi nodi bod rhwng 5 a 10 disgybl mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a allai, o bosibl, gael budd o fod mewn CAA, a'r disgwyl yw y bydd y nifer hwn yn cynyddu dros y 3-5 mlynedd nesaf.

Mae'r ysgol yng 'nghlwstwr pontio' Ysgol Glantaf sydd â chanolfan adnoddau arbenigol uwchradd. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod modd i ddisgyblion barhau'n ffrindiau pan maen nhw'n trosglwyddo o'r CAA cynradd i'r CAA uwchradd.

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

Ystyriwyd agor CAA arall yn Ysgol Coed y Gof, ond diystyriwyd hynny oherwydd diffyg lle yn yr ysgol.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Mae CAA yn ddosbarth bach mewn ysgol prif ffrwd, gyda staff arbenigol yn ei haddysgu. Er bod y canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion cymunedol, maen nhw'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod ac nid o'u hardal leol eu hunain yn unig. Mae disgyblion mewn CAA yn elwa ar gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach â chymarebau disgybl-staff ffafriol, gyda staff arbenigol. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu a chwarae gyda'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

Yr awdurdod lleol fyddai'n rheoli'r broses dderbyn i'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol gan ddibynnu ar ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, a byddai'n agored i ddisgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Bydd y cyfle i gyflogi staff arbenigol ac i weithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd yn gwella gallu'r ysgol o ran cynhwysiant a bydd o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Bydd ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn elwa ar gynnydd mewn arbenigedd a lleoedd yn y sector.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- lleoedd ychwanegol mewn CAA i ddiwallu anghenion disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg
- Byddai Ysgol Pwll Coch yn elwa ar arbenigedd a phrofiad staff CAA
- Byddai’r sector cyfrwng Cymraeg yn elwa ar gael staff arbenigol ychwanegol a darpariaeth yn y sector

**Goblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth**

Mae arfarniad cychwynnol o oblygiadau i briffyrdd a thrafnidiaeth wedi’i gwblhau, ond byddai pob opsiwn yn amodol ar asesiad cludiant llawn. Mae’r asesiad cychwynnol yn dangos y byddai angen i amseroedd dechrau a gorffen y ganolfan adnoddau arbenigol fod yn wahanol er mwyn lleihau traffig a thagfeydd ar ddiwedd a dechrau’r dydd ar Lawrenny Avenue. Byddai Teithio Llesol/Cynaliadwy yn cael ei annog ar gyfer yr holl staff ac ymwelwyr â’r ysgol.

**Gwneud eich barn yn hysbys**
Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.
Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma’ch cyfle i roi gwybod i’r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o’r dulliau canlynol:
- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu’r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i’r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

### Yr Ysgol

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol uwchradd gymunedol yn Llandaf. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau'r sbectrwm awtistiaeth. Ar hyn o bryd, mae 14 o ddisgyblion ar gofrestr y CAA.

Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf ar yr ysgol yn 2017. Dyfarnwyd bod perfformiad yr ysgol a'i rhagolygon gwella'n Dda.

Yn 2017, rhoddodd Llywodraeth Cymru'r ysgol yn y categori cymorth Oren (Ysgol sydd angen gwella ac sydd angen cymorth i adnabod y camau i wella neu i weithredu newid yn gynt).

| **Nifer lleoedd, cyflwr ac addasrwydd Ysgol Gymraeg Glantaf** | | | |
|---|---|---|---|
| Ystod Oedran | Iaith / Categori'r ysgol | Categori Cyflwr yn ôl Arolwg Ysgolion yr 21ain Ganrif | Nifer Lleoedd Cyhoeddedig Presennol |
| 11-19 | Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg | C | 1500 |

| **Niferoedd diweddar ar gofrestr ac amcanestyniadau Ysgol Glantaf** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | Ionawr 2014 (NAYG) | Ionawr 2015 (NAYG) | Ionawr 2016 (NAYG) | Ionawr 2017 (NAYG) | Ionawr 2018 (NAYG) | Amcanestyniad 2018/19 | Amcanestyniad 2019/2020 | Amcanestyniad 2020/2021 | Amcanestyniad 2021/2022 | Amcanestyniad 2022/2023 |
| Ysgol Glantaf | 1276 | 1251 | 1165 | 1132 | 1178 | 1186 | 1269 | 1332 | 1395 | 1395 |
| CAA Ysgol Glantaf | 9 | 11 | 11 | 11 | 14 | 19 | 21 | 23 | 25 | 27 |

### Y newidiadau arfaethedig

Er mwyn ateb y galw am leoedd CAA uwchradd ar gyfer dysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau'r sbectrwm awtistig yn y sector Cymraeg, cynigir:

- estyn y nifer dynodedig yng nghanolfan adnoddau arbenigol Ysgol Glantaf i hyd at 30 o leoedd

Byddai ystafell bresennol y CAA yn cael ei hestyn a'i gwella'n i hwyluso nifer uwch.

**Rhesymeg y newidiadau arfaethedig**

Mae'r galw am leoedd yn y ganolfan wedi bod yn cynyddu'n raddol ers 5 mlynedd bellach ac mae 14 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae amcanestyniadau'n awgrymu y bydd y nifer yn tyfu i 30 o leoedd dros y 3-5 mlynedd nesaf.

Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fonitro'r galw yn y sector a'i fesur yn rheolaidd, a bydd yn cyflwyno rhagor o gynigion i ehangu darpariaeth eto yn y dyfodol yn ôl yr angen.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar yr ysgol?**

Mae CAA yn ddosbarth bach mewn ysgol prif ffrwd, gyda staff arbenigol yn ei haddysgu. Er bod y CAA mewn ysgolion cymunedol, maen nhw'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod ac nid o'u hardal leol eu hunain yn unig. Mae disgyblion mewn CAA yn elwa ar gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau bach â chymarebau disgybl-staff ffafriol, gyda staff arbenigol. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu a chwarae gyda'u cyfoedion yn y brif ffrwd.

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli proses dderbyn y CAA gan ddibynnu ar ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganolfan CAA yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas.

**Sut bydd y newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill yng Nghaerdydd?**

Bydd ysgolion Cymraeg yn parhau i elwa ar arbenigedd a lleoedd arbennig ychwanegol yn y sector.

**Beth yw manteision addysgol y cynigion hyn?**

Byddai i'r cynnig y manteision addysgol canlynol:

- lleoedd CAA ychwanegol i ddiwallu anghenion disgyblion yn y sector cyfrwng Cymraeg
- Byddai Ysgol Glantaf yn elwa ar y cyfle i gyflogi rhagor o staff arbenigol yn y ganolfan CAA
- Byddai'r sector cyfrwng Cymraeg yn elwa ar gael staff arbenigol ychwanegol a darpariaeth yn y sector

**Goblygiadau ar briffyrdd a thrafnidiaeth**

Ni fyddai yna unrhyw oblygiadau ar drafnidiaeth a phriffyrdd.

**Gwneud eich barn yn hysbys**

Mae eich barn yn bwysig ac rydym am i chi rannu eich barn â ni ar y cynigion.

Ar ddiwedd y llyfryn ceir holiadur: dyma’ch cyfle i roi gwybod i’r Cyngor yr hyn feddyliwch chi am y cynigion. Gallwch chi nodi ateb i bob cwestiwn neu i ambell un, fel y mynnoch chi.

Mae modd i chi anfon eich barn atom ni drwy un o’r dulliau canlynol:

- Cwblhewch y ffurflen ar-lein ar www.caerdydd.gov.uk/Ysgolionyr21ainGanrif
- Anfonwch eich barn mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
- Ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad canlynol: Ystafell 422, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW.

Bydd y Cyngor yn ystyried barn pawb cyn penderfynu ar weithredu’r cynigion ai peidio.

Rhaid anfon ymatebion i’r cynnig hwn erbyn 13 Mawrth 2018.

## GOBLYGIADAU'R WYTH CYNLLUN DAN YSTYRIAETH

### Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gadarn.

### Safonau

Mae gan y Cyngor bolisïau ar waith i hwyluso gwelliannau i ysgolion ac mae'n gweithio i ymateb i brif egwyddorion y 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol' er mwyn sicrhau canlyniadau dysgu a llesiant gwell i bob plentyn.
Ni ragwelir unrhyw effaith ar y safonau ansawdd addysg, nac addysg y Cyfnod Sylfaen a phob Cyfnod Allweddol, mewn unrhyw un o'r ysgolion o ganlyniad i'r newidiadau sydd wedi eu cynnig.

### Darpariaeth

Byddai'r cynigion yn mynd i'r afael ag anghenion digonolrwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a ragwelir yn 2018-21. Bydden nhw'n sicrhau bod addysg o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc yn ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol Caerdydd yn y sectorau cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

### Arweinyddiaeth a Llywodraethiant

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gydag arweinwyr ysgolion sy'n destun y cynigion. Y nod drwy hynny yw parhau i sicrhau dull ysgol gyfan gadarn o wella gwaith cynllunio ac o sicrhau perthnasoedd da â rhieni a phartneriaid eraill, a sicrhau addysg o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion.

### Manteision addysgol yr wyth cynllun dan ystyriaeth

Byddai i'r cynigion y manteision addysgol canlynol:

- Mynd i'r afael ag anghenion digonolrwydd ADY a ragwelir yn 2018-21, sicrhau bod addysg o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc yn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol Caerdydd yn y sectorau cyfrwng Saesneg a Chymraeg.

- Drwy ddatblygu Canolfan Ieuenctid Trelái, bydd cyfleusterau chwaraeon ychwanegol ar gael i Ffederasiwn Campws Dysgu'r Gorllewin yn ei chyfanrwydd a'r gymuned, a byddai cyfleoedd i barhau i ddatblygu gwaith amlasiantaeth ar y cyd ar y safle, gan gynnwys gwasanaethau allgymorth, fyddai o fudd i ddysgwyr ag ADY 0-25 oed.

- Cynnig dyfodol cynaliadwy i Ysgol Meadowbank a sicrhau bod plant sydd ag anghenion lleferedd ac iaith neu anableddau dysgu cymhleth yn gallu parhau i elwa ar arbenigedd a chyfleusterau'r ysgol.

- Cyfleoedd ôl-16 oed gwell i bobl ifanc ag anghenion iechyd a lles emosiynol difrifol.

- Bydd CAA newydd yn ochr ddeheuol canol Caerdydd yn hwyluso mynediad at ddarpariaeth arbenigol i blant yn yr ardal a bydd yn lleihau'r angen am gludiant AAA

- Mwy o ddarpariaeth ymyrraeth gynnar ar gyfer plant ag anghenion llefaredd ac iaith.

**Anfanteision posibl y cynigion**

Mae'r anfanteision posibl canlynol wedi'u nodi:

- Gallai niferoedd uwch yn Ysgolion Arbennig Tŷ Gwyn, The Hollies, Meadowbank a Greenhill effeithio ar ddarpariaeth iechyd yn yr ysgolion hyn ond bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Y nod drwy hynny fydd sicrhau bod anghenion asesedig y plant yn cael eu diwallu, a pharhau i ddatblygu dulliau ar y cyd o hyrwyddo llesiant a deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion.

**Dewisiadau eraill a ystyriwyd**

Y dewis amgen i gynyddu'r lleoedd mewn ysgolion arbennig a CAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd fyddai ceisio dod o hyd i leoedd yn y sector annibynnol. Diystyriwyd y dewis hwnnw am y byddai costau refeniw hynny'n uwch na'r buddsoddiad cyfalaf a refeniw ar y cyd fyddai ei angen ar gyfer y cynlluniau arfaethedig.

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

- Mae'r cynlluniau arfaethedig yn cynnwys estyn a gwella'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr â chyflyrau'r sbectrwm awtistig ac anableddau dysgu cymhleth, yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

- Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i ddatblygu ystod y ddarpariaeth ymhellach gan gynnwys:

  - Adolygiad o'r ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Coed y Gof

  - Yn 2017-18, bydd yr awdurdod lleol yn ariannu dull peilot o ddarparu ar gyfer anghenion iechyd emosiynol a llesiant yn y cyfnod uwchradd.

  - Rhaid datblygu ymyrraeth gynnar ar gyfer plant yn y sector Cymraeg ar sail archwiliad o anghenion iaith a lleferydd.

- Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, RhCT, Merthyr a Bro Morgannwg, mae archwiliad rhanbarthol o ddarpariaeth ADY yn cael ei gynnal er mwyn adnabod cyfleoedd i ddatblygu datrysiadau rhanbarthol a rhannu arfer gorau. Ym mhob un o'r pum awdurdod, mae nifer y disgyblion ADY yn sylweddol is na thrwy gyfrwng y Saesneg. Bydd yr archwiliad yn ystyried y rhesymau dros

hynny a bydd yn gofyn am farn gan rieni ac ysgolion.  Caiff yr archwiliad ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

- Rhagwelir y datblygir rhagor o gynlluniau i ddatblygu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan o'r Cynllun Datblygu ADY, a chaiff hwn ei gyflwyno gerbron y Cabinet er ystyriaeth.

**Goblygiadau Ariannol**

Yn achos y costau refeniw, y gyllideb ysgol ddynodedig, ac unrhyw dwf yn y gyllideb a ddarperir yn rhan o gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol, bydd angen darparu'r cyllid sydd ei angen.

O ran costau cyfalaf, bydd angen i'r dyraniadau presennol ar gyfer Gwaith Addasu Ysgolion a gymeradwywyd yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer y cyfnod pum mlynedd sy'n dechrau yn 2017/18, roi'r cyllid sydd ei angen am waith ar adeiladau a gwariant arall ar asedau. Serch hynny, defnyddir y dyraniad penodol hwn hefyd i dalu am wariant heblaw am ADY, ac felly mae'n bosibl na fydd y dyraniad hwn yn ddigonol i dalu'r holl gostau cysylltiedig.

Os na fydd y lefelau cyllid presennol yn ddigonol i dalu cost pob cynllun, ac os na ddaw digon o gyllid drwy gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol, bydd angen ail-flaenoriaethu cynlluniau er mwyn sicrhau y rhoddir y cynlluniau fforddiadwy ar waith yn unig.

**Goblygiadau i Adnoddau Dynol**

Bydd pob cynnig unigol yn fras yn ymwneud â chynorthwyo ysgolion gyda thwf, gan gynnwys cynllunio a hyfforddi'r gweithlu. Bydd angen ymgynghori ag undebau fel rhan o'r broses honno.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau. Daeth i'r casgliad na fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu'n dilyn ymgynghoriad.

**Trefniadau teithio dysgwyr**

Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i'r ysgol ac oddi yno. Byddai unrhyw ddisgyblion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw'n cael cynnig yr un cymorth gyda chludiant ag a ddarperir ledled Caerdydd, yn unol â'r un meini prawf sydd ar waith ledled Caerdydd. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd sy'n byw dwy filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf. Mesurir y pellter ar sail y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Pan wnaiff yr awdurdod lleol benderfyniad ar yr ysgol addas agosaf, rhaid iddo ystyried unrhyw anabledd sydd ar blentyn ac unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) sydd ganddo.

**FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD**

Ymgynghoriad ar wella darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol 2018-19
Mae eich safbwyntiau'n bwysig ac rydym ni am i chi rannu eich barn ar y cynnig drwy un o'r canlynol:

- Cwblhau'r holiadur hwn a'i anfon i'r cyfeiriad ar waelod y ffurflen.
- Cwblhau ymateb ar-lein www.caerdydd.gov.uk/Ysgolionyr21ainGanrif
- Neu, os oes gwell gennych chi, gallwch chi e-bostio eich sylwadau i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Cofiwch fod rhaid i'r holl sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig neu dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y person sy'n gwneud y sylwadau.**

**Rhaid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 13 Mawrth 2018. Yn anffodus, ni fydd y Cyngor yn ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

**Ni chaiff** ymatebion i'r ymgynghoriad eu trin fel gwrthwynebiadau i'r cynigion. Nid oes modd cofrestru gwrthwynebiadau oni chyhoeddir **hysbysiad statudol.**

Gellir gofyn am unrhyw ymatebion a ddaw i law dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gallai fod rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Serch hynny, caiff unrhyw wybodaeth benodol am unigolyn, er enghraifft enw a chyfeiriad, ei thynnu.

Gweler y ffurflen ymateb i ymgynghoriad isod/trosodd.

**1. Pa un o'r canlynol ydych chi?**

- Rhiant
- Athro/athrawes – nodwch eich ysgol……………………………………………..
- Llywodraethwr Ysgol – nodwch eich ysgol ………………………………
- Arall – nodwch ……………………………………..……………………

**2. A oes gennych chi blentyn neu blant sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgolion canlynol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**

- Ysgol Gynradd Allensbank
- Ysgol Greenhill
- Ysgol Arbennig The Hollies
- Ysgol Arbennig Meadowbank
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair
- Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
- Ysgol Glantaf
- Ysgol Pwll Coch
- Arall – nodwch ………………………………………

**3. Ym mha flwyddyn mae'r plentyn/plant? (ticiwch bob un perthnasol)**

- 1
- 2
- 3
- 4
- 5
- 6
- 7
- 8
- 9
- 10
- 11
- Ôl-11 oed

**4. Ar y cyfan, ydych chi'n gefnogol i'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno i wella darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol?**

- Ydw ☐
- Nac Ydw ☐
- Ddim yn Gwybod ☐

**5. Ydych chi'n cefnogi'r cynllun sydd wedi'i gynnig ar gyfer pob un o safleoedd yr ysgolion? (mae modd gweld manylion llawn y cynigion yma)**

| **Ysgol a'r cynnig yn gryno** | **Ydw** | **Nac ydw** | **Ddim yn Gwybod** |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Allensbank** – Cynnig i ddirwyn y ganolfan adnoddau arbennig ar gyfer disgyblion â namau ieithyddol penodol i ben, ac i agor dosbarth ymyrraeth gynnar ag wyth lle (disgyblion i ddechrau ym mis Medi 2019) | | | |
| **Ysgol Greenhill** – Cynnig i ymestyn yr ystod oedran o 11-16 i 11-19 er mwyn helpu i wella'r pontio i gyflogaeth, coleg neu hyfforddiant | | | |
| **Ysgol Arbennig The Hollies** – cynyddu nifer y disgyblion i 138. Defnyddio dau safle gan ddefnyddio Safle gwag Glan Morfa a chyflwyno opsiwn i ddisgyblion 11-14 oed i aros yn The Hollies. | | | |
| **Ysgol Arbennig Meadowbank** – Cynnig i newid dynodiad yr ysgol er mwyn iddo gynnwys anableddau dysgu cymhleth yn ogystal ag anawsterau iaith penodol yn unig | | | |
| **Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair** – Dim darpariaeth arbenigol ar hyn o bryd. Cynnig i agor canolfan adnodd ar gyfer hyd at 20 disgybl. (yn rhan o adeilad newydd) | | | |
| **Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn** - Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd i 198 drwy greu tair ystafell ddosbarth newydd gan gynnwys ailddatblygu canolfan ieuenctid Trelái. | | | |
| **Ysgol Glantaf** – Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbennig. Cynnig i gynyddu nifer y lleoedd i 30. | | | |
| **Ysgol Pwll Coch** – Dim darpariaeth arbenigol ar hyd o bryd. Cynnig i agor canolfan adnodd (10 lle i ddechrau gyda'r potensial i dyfu i 20) mewn lleoliad Cymraeg. | | | |

**6a. A oes gennych chi unrhyw bryderon penodol ynghylch y cynigion?**

**Oes** ☐ **Nac oes** ☐

**6b. Os oes, rhowch fanylion a nodwch am ba gynigion rydych chi'n sôn:**

- Ysgol Gynradd Allensbank
- Ysgol Greenhill
- Ysgol Arbennig The Hollies
- Ysgol Arbennig Meadowbank
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair
- Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
- Ysgol Glantaf
- Ysgol Pwll Coch
- Cyffredinol

**6c. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud i helpu i leddfu'r pryder hwnnw?**

**7. Unrhyw sylwadau pellach**

**Os hoffech chi glywed gan aelod o'r tîm ADY i drafod y mater hwn ymhellach, rhowch fanylion cyswllt.**

**Enw**

**Rhif ffôn**

**E-bost**

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 422, Neuadd y Sir, CF10 4UW erbyn 13 Mawrth 2018

Diolch am eich sylwadau.

Ticiwch y blwch isod os hoffech chi gael gwybod pan fo'r adroddiad o'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. ☐

**CYNGOR CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

**DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG SAESNEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN,** yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- Dod â Chanolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) Ysgol Gynradd Allensbank, Llanishen Street, y Mynydd Bychan, Caerdydd, CF14 3QE i ben yn raddol, gan gau'r dosbarth yng Ngorffennaf 2022, neu pan fo'r disgyblion sydd yno ar hyn o bryd yn gorffen eu cyfnod cynradd, os yn gynt.

Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Pages/default.aspx

Mae chwe disgybl yng Nghyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Nid oes effaith ar drafnidiaeth ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 29 Mai 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofiwch fod rhaid i wrthwynebiadau a anfonir dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebwr.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 02 Mai 2018

Llofnod: Davina Fiore

Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraethiant a Swyddog Monitro

Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

Ysgol gynradd gymunedol yw Allensbank wedi ei lleoli yn Cathays. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol (CAA) â lle wedi ei neilltuo i 16-20 o ddisgyblion ag anghenion iaith a chyfathrebu.

Mae'r galw am leoedd yn y CAA wedi gostwng dros sawl blwyddyn. Mae yno nawr 6 disgybl, i gyd yng Nghyfnod Allweddol 2. Credir bod cyswllt rhwng y gostyngiad yn y galw a'r ffordd y mae'r gwasanaeth addysg a'r gwasanaeth therapi yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd i ganfod a diwallu anghenion yn gynnar. Cyhoeddir llai o ddatganiadau nawr ar gyfer plant ac anghenion lleferydd ac iaith penodol, ac mae'r rhan fwyaf yn cael eu cyhoeddi'n gymharol hwyr, pan fo plant eisoes yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae cyhoeddi llai o ddatganiadau yn adlewyrchu ymyrraeth gynnar effeithiol, ond mae ganddo sgil-effaith o greu oedi mewn mynediad i ddarpariaeth arbenigol ar gyfer y plant sydd o bosib ei hangen fwyaf.

Y datrysiad a gynigir yw agor dosbarth ymyrraeth gynnar yn yr ysgol. Cymorth dwys mewn dosbarth arbennig sydd fwyaf effeithiol, os darperir ef mor gynnar â phosibl. Byddai lleoliadau yn y dosbarth ymyrraeth gynnar felly'n cael eu canfod gan y panel iaith a lleferydd arbenigol ac ni fyddai'n dibynnu ar ddatganiad.

Byddai'r dosbarth ymyrraeth gynnar yn agor ym Medi 2019. Byddai'r meini prawf derbyn, staffio, y cwricwlwm a'r dull gweithredu yn cael eu hystyried yn llawn i ddechrau a'u cytuno mewn partneriaeth gyda'r corff llywodraethu a'r gwasanaeth therapi, ac mewn ymgynghoriad ag ysgolion eraill.

Ar sail gwaith cychwynnol i ddiffinio'r dull, disgwylir y byddai'r dosbarth yn derbyn hyd at 8 o blant y Cyfnod Sylfaen, rhai nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol ond sydd â gobaith da o ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd. Byddai plant yn aros yn y dosbarth am gyfnod rhwng 1-3 blynedd, yn dibynnu ar eu cynnydd. Byddai disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn derbyn cefnogaeth i ddychwelyd ar ddiwedd eu cyfnod yn y dosbarth. Byddai disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol am ddiwrnod yr wythnos, o leiaf, er mwyn cadw cyswllt gyda ffrindiau lleol ac i baratoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Byddai'r CAA yn cau fesul dipyn, er mwyn i ddisgyblion presennol gwblhau eu haddysg yno. Ni fyddai rhagor o ddisgyblion â datganiad yn cael eu derbyn: byddai disgyblion ag anghenion sylweddol neu benodol naill ai'n cael datganiadau prif ffrwd neu'n cael y cyfle i fynychu Ysgol Arbennig Meadowbank.

**CYNGOR CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

**DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG SAESNEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN,** yn unol ag Adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- Ymestyn ystod oedran Ysgol Arbennig Greenhill, Heol Brynglas, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6UJ o 11-16 i 11-19
- Cynyddu capasiti'r ysgol o 56 lle i 64 lle

Cynigir gweithredu'r cynnig ym Medi 2018.

Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Pages/default.aspx

56 yw nifer presennol y disgyblion yn Ysgol Arbennig Greenhill (11-16), 56 yw capasiti yr ysgol a'r capasiti arfaethedig wedi i'r cynnig gael ei weithredu fydd 64.

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli derbyn i'r ysgol. Mae'n ofynnol i ddisgybl gael datganiad Angen Addysgol Arbennig cyn cael ei dderbyn, yn unol â Chod Ymddygiad Addysg Arbennig Cymru 2002 a'r Ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018.

Bydd yr ysgol yn parhau i gynnig lleoedd ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol, iechyd a llesiant.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 29 Mai 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofiwch fod rhaid i wrthwynebiadau a anfonir dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebwr.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 02 Mai 2018

Llofnod: Davina Fiore

Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraethiant a Swyddog Monitro

Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Greenhill yn ysgol arbennig sy'n darparu lleoedd ysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion iechyd, emosiynol a lles, rhwng 11 ac 16 oed.

Mae'r ysgol yn Rhiwbeina ac mae'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Byddai disgyblion ôl 16 yn mynychu rhai dosbarthiadau ar y safle, ond byddent hefyd yn derbyn cefnogaeth i gyrchu cyfleoedd addysgol addas mewn mannau eraill, yn rhan o broses bontio wedi ei chefnogi, rhwng ysgol a choleg neu gyflogaeth.

Mae gan yr ysgol arbenigedd a phrofiad perthnasol i gefnogi disgyblion ôl 16, ond byddai angen datblygu cwricwlwm ôl 16 addas yn canolbwyntio ar helpu'r pontio i goleg neu gyflogaeth erbyn diwedd Blwyddyn 12.

**CYNGOR CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

**DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG SAESNEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN,** yn unol ag Adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- newid y math o addysg arbennig a ddarperir yn Ysgol Arbennig Meadowbank, Colwill Road, Gabalfa, Caerdydd, CF14 2QQ o fod ar gyfer 'anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu' i fod yn 'anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac anableddau dysgu cymhleth'.

Cynigir gweithredu'r cynnig ym Medi 2018.

Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Pages/default.aspx

15 yw nifer presennol y disgyblion yn Ysgol Arbennig Meadowbank (4-11), 40 yw capasiti yr ysgol a'r capasiti arfaethedig wedi i'r cynnig gael ei weithredu fydd 40.

Mae plant yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau cymysg a gallai'r niferoedd fesul grwp oedran amrywio, ond ni fyddai'r cyfanswm yn uwch na 40.

Bydd yr ysgol yn parhau i ddarparu lleoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, yn ogystal ag ar gyfer disgyblion ac anableddau dysgu cymhleth.

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli derbyn i'r ysgol. Mae'n ofynnol i ddisgybl gael datganiad Angen Addysgol Arbennig cyn cael ei dderbyn, yn unol â Cod Ymddygiad Addysg Arbennig Cymru 2002 a'r Ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 29 Mai 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofiwch fod rhaid i wrthwynebiadau a anfonir dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebwr.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 02 Mai 2018

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraethiant a Swyddog Monitro
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Ysgol arbennig yw Meadowbank sy'n darparu lleoedd ar gyfer disgyblion â namau iaith penodol. Mae'r ysgol yn Ngabalfa ac mae'n derbyn disgyblion o bob cwr o'r awdurdod.

Mae'r adeiladau yn Meadowbank mewn cyflwr da ond byddai angen rhai addasiadau i'r adeilad, gan gynnwys creu ardal newid a gwella hygyrchedd yr adeilad.

Mae gan y ddarpariaeth ADY ddalgylch ledled y ddinas ac felly efallai na fydd disgyblion yn byw gerllaw'r safle. O ganlyniad, efallai na fydd llwybrau cerdded, beicio, gwasanaethau bysus na rheilffyrdd yn addas o ran pellter nac anghenion disgyblion. Ar ben hynny, tra bod rhai disgyblion yn gallu teithio yn annibynnol gyda chymorth cydnabyddir na all eraill ac felly bydd gofyn i Gludiant Ysgolion weithio gyda disgyblion, ysgolion a rhieni/gofalwyr i edrych ar y ffyrdd mwyaf priodol o gludo disgyblion a'u hanghenion.

**CYNGOR CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

**DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG SAESNEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN,** yn unol ag Adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Vincent Road, Caerau, Caerdydd CF5 5AQ o 150 lle i 198 lle.

Cynigir gweithredu'r cynnig ym Medi 2018.

Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Pages/default.aspx

174 yw nifer presennol y disgyblion yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn (3-19), 150 yw capasiti yr ysgol a'r capasiti arfaethedig wedi i'r cynnig gael ei weithredu fydd 198.

Mae plant yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau cymysg a gallai'r niferoedd fesul grŵp oedran amrywio, ond ni fyddai'r cyfanswm yn uwch na 198.

Bydd yr ysgol yn parhau i ddarparu lleoedd i ddysgwyr ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth (CSA).

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli derbyn i'r ysgol. Mae'n ofynnol i ddisgybl gael datganiad Angen Addysgol Arbennig cyn cael ei dderbyn, yn unol â Chod Ymddygiad Addysg Arbennig Cymru 2002 a'r Ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 29 Mai 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofiwch fod rhaid i wrthwynebiadau a anfonir dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebwr.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 02 Mai 2018

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraethiant a Swyddog Monitro
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Tŷ Gwyn yn ysgol arbennig sy'n darparu lleoedd ysgol arbennig i ddysgwyr rhwng 3 ac 19 oed ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth (CSA).

Mae'r ysgol yng Nghaerau ac mae'n derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Ers 08 Ionawr bu'r ysgol mewn ffederasiwn gydag Ysgolion Arbennig Riverbank a Willows, dan yr enw Ffederasiwn Campws Dysgu'r Gorllewin.

Cynigir addasu rhan o Ganolfan Ieuenctid Trelai o ddarparu tair ystafell ddysgu newydd ar gyfer Ysgol Tŷ Gwyn, ac i greu cyswllt rhwng yr ysgol ac adeiladau'r ganolfan ieuenctid drwy goridor amgaeedig neu lwybr troed dan do.

Byddai'r cynllun yn rhan o broject amlasiantaeth sydd wedi ei greu dan Raglen Anableddau'r Dyfodol, i ailddatblygu adeilad Canolfan Ieuenctid Trelai i fod yn adnodd amlasiantaeth yn gysylltiedig â Champws Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin. Mae'r project yn ymchwilio i bosibilrwydd datblygu un rhan o'r adeilad yn hyb ar gyfer gwasanaethau amlasiantaethol, ac i gynyddu defnydd ar y cyfleusterau chwaraeon sydd eisoes yno gan blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, yn ystod oriau'r ysgol, ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.

Mae gan y ddarpariaeth ADY ychwanegol ddalgylch ledled y ddinas ac felly efallai na fydd disgyblion yn byw gerllaw'r safle. O ganlyniad, efallai na fydd llwybrau cerdded, beicio, gwasanaethau bysus na rheilffyrdd yn addas o ran pellter nac anghenion disgyblion. Yn ychwanegol, er bod rhai disgyblion yn gallu teithio'n annibynnol, gyda chefnogaeth, cydnabyddir bod eraill yn methu â gwneud hynny, ac felly bydd Cludiant Ysgol yn gweithio gyda disgyblion, ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid i ystyried y dull teithio mwyaf priodol ar gyfer y disgyblion a'u hanghenion.

**CYNGOR CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

**DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN,** yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd, CF14 2JL, yn darparu hyd at 30 o leoedd ar gyfer plant 11-19 oed ag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg

Cynigir gweithredu'r cynnig o Fedi 2018.

Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Pages/default.aspx

Mae gan yr ysgol ar hyn o bryd adnoddau ar gyfer 14 disgybl oed 11-19 gyda datganiadau anghenion addysgol arbennig sy'n benodol i anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth.

Yr awdurdod lleol fyddai'n rheoli derbyn i'r CAA. Mae'n ofynnol i ddisgybl gael datganiad Angen Addysgol Arbennig cyn cael ei dderbyn, yn unol â Chod Ymddygiad Addysg Arbennig Cymru 2002 a'r Ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018.

Byddai derbyn i'r CAA ar wahân i dderbyn i'r brif ysgol a byddai'n ychwanegol at Rif Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 29 Mai 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofiwch fod rhaid i wrthwynebiadau a anfonir dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebwr.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 02 Mai 2018

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraethiant a Swyddog Monitro
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol uwchradd gymunedol yn Llandaf.

Byddai'r adeiladau presennol yn cael eu hymestyn a'u gwella i greu lle i'r niferoedd ychwanegol.

Mae dalgylch dinas gyfan ar waith ar gyfer Anghenion Addysgol Ychwanegol ac felly mae'n bosibl na fyddai'r disgyblion yn byw gerllaw'r safle. Felly, mae'n bosibl na fyddai gwasanaethau bws neu drên, llwybrau seiclo neu gerdded yn addas oherwydd y pellter neu anghenion y disgyblion. Yn ychwanegol, er bod rhai disgyblion yn gallu teithio'n annibynnol, gyda chefnogaeth, cydnabyddir bod eraill yn methu â gwneud hynny, ac felly bydd Cludiant Ysgol yn gweithio gyda disgyblion, ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid i ystyried y dull teithio mwyaf priodol ar gyfer y disgyblion a'u hanghenion.

**CYNGOR CAERDYDD**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

**DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG CYMRAEG**

**HYSBYSIR DRWY HYN,** yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig gwneud y canlynol:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Lawrenny Avenue, Lecwydd, Caerdydd, CF11 8BR gyda hyd at 20 o leoedd ar gyfer plant 4-11 oed gydag anableddau dysgu cymhleth a chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg o Fedi 2018.

Caiff yr ysgol ei chynnal ar hyn o bryd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Bydd y ganolfan yn darparu hyd at 10 o leoedd i gychwyn, gyda'r gallu i dyfu i 20 lle wrth i'r galw gynyddu.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Ysgolion-yr-21ain-Ganrif/Pages/default.aspx

Yr awdurdod lleol fyddai'n rheoli derbyn i'r CAA. Mae'n ofynnol i ddisgybl gael datganiad Angen Addysgol Arbennig cyn cael ei dderbyn, yn unol â Chod Ymddygiad Addysg Arbennig Cymru 2002 a'r Ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018.

Byddai derbyn i'r CAA ar wahân i dderbyn i'r brif ysgol a byddai'n ychwanegol at Rif Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol.

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Gellir cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynigion hyn o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 29 Mai 2018.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cofiwch fod rhaid i wrthwynebiadau a anfonir dros e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post y gwrthwynebwr.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 02 Mai 2018

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Cyfraith a Llywodraethiant a Swyddog Monitro
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Ysgol gynradd gymunedol yn Nhreganna yw Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Nid oes unrhyw ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Byddai lle i'r CAA yn cael ei greu o fewn y cyfleusterau presennol, ond byddai angen peth ailwampio.

Mae gan y ddarpariaeth ADY ychwanegol ddalgylch ledled y ddinas ac felly efallai na fydd disgyblion yn byw gerllaw'r safle. O ganlyniad, efallai na fydd llwybrau cerdded, beicio, gwasanaethau bysus na rheilffyrdd yn addas o ran pellter nac anghenion disgyblion. Yn ychwanegol, er bod rhai disgyblion yn gallu teithio'n annibynnol, gyda chefnogaeth, cydnabyddir bod eraill yn methu â gwneud hynny, ac felly bydd Cludiant Ysgol yn gweithio gyda disgyblion, ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid i ystyried y dull teithio mwyaf priodol ar gyfer y disgyblion a'u hanghenion.